

Polisi cyhoeddi a datgelu CFfC

GPfHC0034 Fersiwn 6

Mae'r polisi hwn yn egluro'r egwyddorion rydyn ni'n eu dilyn wrth gyhoeddi a datgelu gwybodaeth am weithwyr fferyllol proffesiynol, fferyllfeydd cofrestredig a sefydliadau addysg fferyllol rydyn ni'n eu rheoleiddio.



Manylion polisi

Cyfeirnod y polisi	GPHC0034
Fersiwn	6
Awdur y polisi	Mariya Stamenova, Rheolwr Polisi (Safonau)
Cymeradwywyd i'w gyhoeddi gan	Uwch grŵp arwain, 04 Awst 2020
Yn weithredol o	16 Chwefror 2021
Adolygiad nesaf	10 Awst 2022

Traciwr olrhain fersiynau

Fersiwn	Dyddiad Cymeradwyo	Disgrifiad o newidiadau	Diwygiadau gan
1	14/05/12	Creu'r Polisi	
2	01/12/13	Ail fersiwn wedi'i diweddaru	
2.1	01/09/14	Diwygio'r tabl cyfnodau cyhoeddi	
3	03/07/18	Fersiwn wedi'i diweddaru	Jerome Mallon
4	01/08/19	Fersiwn wedi'i hehangu. Diweddarwyd i dampled hygyrch	Mariya Stamenova.
5	04/08/20	Egluro'r polisi o ran cyhoeddi penderfyniadau apeliadwy	Carole Gorman
6	16/02/21	Eglurhad pellach ar benderfyniadau apeliadwy, datgelu trawsgrifiadau a phenderfyniadau adfer, diweddariadau eraill	Carole Gorman

Cynnwys

Polisi cyhoeddi a datgelu	5
1. Cyflwyniad.....	5
2. Gwybodaeth a ddefnyddiwn	6
3. Y cefndir cyfreithiol	7
4. Sut rydyn ni'n gwneud penderfyniadau ynghylch cyhoeddi neu ddatgelu.....	8
5. Budd y cyhoedd.....	9
6. Gwerthuso, adolygu a chytuno	10
7. Rhagor o wybodaeth a manylion cyswllt.....	11
Atodiad A: Canllawiau cyhoeddi a datgelu – unigolion (addasrwydd i ymarfer)	12
A.1 Cyflwyniad a diben.....	12
A.2 Sut rydyn ni'n cyhoeddi gwybodaeth addasrwydd i ymarfer.....	12
A.3 Cyhoeddi a datgelu gwybodaeth addasrwydd i ymarfer ynghylch unigolion.....	13
A.4 Rhannu gwybodaeth gyda chyrrff eraill.....	19
A.5 Eraill sydd ynghlwm wrth y broses	20
Atodiad B: Canllawiau cyhoeddi a datgelu – fferyllfeydd cofrestredig.....	21
B.1 Cyflwyniad a diben	21
B.2 Sut rydyn ni'n cyhoeddi gwybodaeth arolygu	21
B.3 Sut rydym yn cyhoeddi gwybodaeth am orfodi.....	22
B.4 Cyhoeddi a datgelu gwybodaeth arolygu a gorfodi	24
B.5 Rhannu gwybodaeth gyda chyrrff eraill.....	28
Atodiad C: Canllawiau cyhoeddi a datgelu – addysg.....	29
C.1 Cyflwyniad a diben	29
C.2 Sut rydyn ni'n cyhoeddi gwybodaeth am addysg	29
C.3 Cyhoeddi a datgelu gwybodaeth yn ymwneud ag addysg	30
C.4 Rhannu gwybodaeth gyda chyrrff eraill.....	32
Atodiad D: Canllawiau cyhoeddi a datgelu – y Gofrestr.....	34
1. Y cefndir cyfreithiol	34
2. Fferyllwyr	34

Polisi cyhoeddi a datgelu CFfC
GPHC0034 Fersiwn 6

3.	Technegwyr fferyllol.....	35
4.	Gweld cofrestr dros dro argyfwng COVID-19.....	35
5.	Cofrestr dros dro ar gyfer fferyllwyr.....	35
6.	Fferyllfeydd	36
7.	Darpariaeth gwasanaethau dros dro ac achlysurol.....	36
8.	Chwilio am gofnod ar Gofrestr y CFfC	37
	Atodiad E: Canllawiau cyhoeddi a datgelu – ymgynghoriadau.....	38

Polisi cyhoeddi a datgelu

1. Cyflwyniad

Amdanom ni

Mae'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol (CFfC) yn rheoleiddio fferyllwyr, technegwyr fferyllol a fferyllfeydd ym Mhrydain. Rydyn ni'n gweithio i roi sicrwydd ynghylch safonau gofal ar gyfer pobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferyllol, a gwella'r safonau hynny.

Ein rôl yw diogelu'r cyhoedd a rhoi sicrwydd iddyn nhw y byddan nhw'n derbyn gofal diogel ac effeithiol wrth ddefnyddio gwasanaethau fferyllol.

Rydyn ni'n gosod safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol a fferyllfeydd er mwyn iddyn nhw gael eu derbyn ar ein cofrestr, ac aros arni.

Rydyn ni'n gofyn i weithwyr fferyllol proffesiynol a fferyllfeydd am dystiolaeth eu bod yn parhau i gyrraedd ein safonau, ac mae hyn yn cynnwys arolygu fferyllfeydd.

Rydyn ni'n gweithredu i ddiogelu'r cyhoedd a chynnal ffydd y cyhoedd mewn fferylliaeth pan fo pryderon am weithiwr fferyllol proffesiynol neu fferyllfa ar ein cofrestr.

Drwy ein gwaith, rydyn ni'n helpu i hybu proffesiynoldeb, yn cefnogi gwelliant parhaus ac yn sicrhau ansawdd a diogelwch fferylliaeth.

Ynghylch y polisi hwn

Yn rhan o'n gwaith rheoleiddio, rydym yn cyhoeddi ac yn datgelu deunyddiau. Mae'r polisi hwn yn egluro'r egwyddorion rydyn ni'n eu dilyn wrth gyhoeddi a datgelu gwybodaeth am weithwyr fferyllol proffesiynol, fferyllfeydd cofrestredig a sefydliadau addysg fferyllol rydyn ni'n eu rheoleiddio. Rydym yn cyhoeddi ac yn datgelu'r wybodaeth hon fel ein bod:

- yn cyflawni ein hamcanion statudol
- yn cyflawni ein tasgau yn effeithiol ac yn unol â'n rôl ac er lles y cyhoedd
- yn ateb gofynion cyfreithiol perthnasol

Mae'r polisi'n cwmpasu:

- gwybodaeth a gyhoeddwn ar ein gwefan a'n cofrestr ar-lein
- gwybodaeth a ddatgelwn i drydydd partïon wrth wneud ein gwaith rheoleiddio, a
- sut rydyn ni'n ymdrin â cheisiadau unigol am wybodaeth.

Rydym yn ymrwymedig at fod yn agored ac yn dryloyw ynghylch ein prosesau a sut y gwnawn ein penderfyniadau. Rydym hefyd yn anelu at fod yn agored ynghylch y camau a weithredwn mewn ymateb i bryderon am fferyllfeydd cofrestredig a gweithwyr fferyllol proffesiynol, er mwyn i'r cyhoedd allu cael ffydd mewn safonau gofal fferyllol.

Mae'r polisi hwn yn egluro sut rydyn ni'n cydbwysu'r angen i fod yn agored ac yn dryloyw â hawliau a rhyddid unigolion, er mwyn i ni sicrhau bod yr hyn a gyhoeddwn neu a ddatgelwn yn gymesur.

Mae'r polisi'n cynnwys:

- polisi cyffredinol sy'n nodi ein hegwyddorion cyhoeddi a datgelu, gan gynnwys yr hyn a olygwn wrth 'ddatgelu er budd y cyhoedd'
- Atodiad A, yn nodi'r wybodaeth a gyhoeddwn, a ddatgelwn yn rheolaidd ac a ddatgelwn ar sail achos-wrth-achos ynghylch y gweithwyr fferyllol proffesiynol rydyn ni'n eu rheoleiddio
- Atodiad B, yn nodi'r wybodaeth a gyhoeddwn, a ddatgelwn yn rheolaidd ac a ddatgelwn ar sail achos-wrth-achos ynghylch y fferyllfeydd rydyn ni'n eu rheoleiddio
- Atodiad C, yn nodi'r wybodaeth a gyhoeddwn, a ddatgelwn yn rheolaidd ac a ddatgelwn ar sail achos-wrth-achos mewn perthynas â hyfforddiant ac addysg fferyllol.
- Atodiad D, yn nodi'r wybodaeth a gyhoeddwn mewn perthynas â Chofrestr y CFFC
- Atodiad E, yn nodi'r wybodaeth a gyhoeddwn mewn perthynas ag ymgynghoriadau'r CFFC

2. Gwybodaeth a ddefnyddiwn

I wneud ein gwaith rheoleiddio yn unol â'r gyfraith, mae angen i ni gasglu a defnyddio gwybodaeth ¹ am:

- gweithwyr proffesiynol sy'n:
 - gofrestredig gyda ni (aelodau cofrestredig)
 - gwneud cais am anodiad ²i'w cofnod ar y gofrestr
 - gwneud cais i gofrestru, gan gynnwys rhai sydd am ddychwelyd i'r gofrestr
 - perchen ar neu redeg fferyllfeydd cofrestredig
- pobl sy'n hyfforddi i fod yn weithwyr fferyllol proffesiynol, gan gynnwys rhai sydd:
 - yn ymgeisio i, neu'n cymryd rhan yn, y cynllun hyfforddi cyn gofrestru
 - yn ymgeisio i sefyll yr asesiad cofrestru
 - yn fyfyrwyr ar gwrs astudio wedi ei gymeradwyo gan y CFFC
- yn fferyllfeydd cofrestredig, ac yn berchnogion sy'n gwneud cais i gofrestru eu lleoliad. Gallai hyn gynnwys gwybodaeth fasnachol gyfrinachol wedi ei rhannu gyda ni yn rhan o'n rôl rheoleiddio
- fferyllfeydd cofrestredig, yn rhan o'n proses arolygu
- pryderon wedi eu mynegi ynghylch ansawdd gofal mewn fferyllfeydd cofrestredig, neu addasrwydd i ymarfer aelodau cofrestredig neu bobl sy'n gwneud cais i gofrestru. Bydd hyn yn cynnwys

¹ O ran gweithwyr fferyllol proffesiynol a hyfforddeion, mae'r wybodaeth hon yn cynnwys manylion cyswllt; gwybodaeth am gymwysterau, hyfforddiant a phrofiad; a hanes cofrestru. Gallai rhai aelodau cofrestredig hefyd ddarparu gwybodaeth am eu hiechyd neu eu cofnodion troseddol

² Cymwysterau neu gyfrifoldebau ychwanegol sydd gan aelod cofrestredig yw anodiadau. Gall pregripsiynydd annibynnol bresgripsiynu unrhyw feddyginiaeth ar gyfer unrhyw amod (ac eithrio tri Chyffur a Reolir ar gyfer trin dibyniaeth). Gall presgripsiynydd atodol bresgripsiynu unrhyw feddyginiaeth ar gyfer unrhyw amod o fewn cynllun rheoli clinigol y cytunwyd arno.

gwybodaeth i'n helpu ni i ymchwilio i bryderon a fynegir wrthon ni gan gleifion, defnyddwyr gwasanaethau fferyllol a chyflogeion fferyllfeydd

- prifysgolion a chyrrff eraill sy'n darparu cyrsiau achrededig, a'u cyflogeion; a safleoedd hyfforddiant cyn-gofrestru
- pryderon wedi eu mynegi am hyfforddiant ac addysg fferyllol.

Mae rhagor o fanylion am y wybodaeth a ddefnyddiwn yn ein **polisi preifatrwydd**.

3. Y cefndir cyfreithiol

Gorchymyn Fferylliaeth 2010

Mewn rhai amgylchiadau, mae'r gyfraith yn dweud bod yn rhaid i ni gyhoeddi neu ddatgelu gwybodaeth. Mae **Gorchymyn Fferylliaeth 2010 a Rheolau a wnaed o dan y Gorchymyn** yn nodi'r wybodaeth y mae'n rhaid i ni ei chyhoeddi.

Mae gwybodaeth y mae'n rhaid i ni ei chyhoeddi yn cynnwys:

- cofrestri cyhoeddus fferyllfeydd, fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol
- ein safonau
- rhestri safleoedd hyfforddi cyn gofrestru
- rhestri darparwyr hyfforddiant ac addysg
- adroddiadau ymweliadau achredu.

Dan y ddeddfwriaeth, gallwn gyhoeddi neu ddatgelu gwybodaeth arall er lles y cyhoedd.

Mae Erthygl 9 y Gorchymyn Fferylliaeth, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Fferylliaeth (Safonau Adeiladau, Rhwymedigaethau Gwybodaeth, ac ati) 2016, yn nodi y gall y CFFC gyhoeddi adroddiadau arolygiadau arferol, arolygiadau arbennig ac ymweliadau eraill â fferyllfeydd cofrestredig gan arolygwyr, ac y gall yr adroddiadau cynnwys disgrifiad o ganlyniadau'r arolygiadau ac ymweliadau hynny.

Dywed Erthygl 6 y Gorchymyn Fferylliaeth bod gan y CFFC ddyletswydd i gydweithredu â sefydliadau eraill sydd ynghlwm wrth:

- gyflogi aelodau cofrestredig (boed y gyflogaeth dan gytundeb gwasanaeth ai peidio)
- hyfforddiant neu addysg aelodau cofrestredig, darpar aelodau neu weithwyr gofal iechyd neu gymdeithasol proffesiynol eraill
- rheoleiddio neu gydlynu rheoleiddio gweithwyr gofal iechyd neu gymdeithasol eraill
- rheoleiddio gwasanaethau iechyd
- darparu, goruchwyllo neu reoli gwasanaethau iechyd

At y diben hwn, rydym yn gweithio gydag amrywiaeth eang o bobl, grwpiau a sefydliadau a gellir rhannu gwybodaeth er lles y cyhoedd. Mae modd i chi ddarllen **rhagor o wybodaeth am hyn ar ein gwefan**.

Mae pwerau a chyfrifoldebau'r CFFC o ran cofrestru lleoliadau fferyllol a gorfodi rhai darpariaethau penodol yn cael eu diffinio yn Neddf Meddyginiaethau 1968 a Deddf Gwenwynau 1972. Mae Rhan IV a Rhan VIII y Ddeddf Meddyginiaethau yn arbennig o berthnasol wrth egluro'r pwerau hynny.

Deddfwriaeth arall

Efallai y bydd angen i ni gyhoeddi neu ddatgelu gwybodaeth dan gyfreithiau eraill. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000
- deddfwriaeth diogelu data, yn rhai domestig ac Ewropeaidd
- Deddf Hawliau Dynol 1998
- Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004
- deddfau sy'n caniatáu i awdurdodau eraill wneud ceisiadau swyddogol am wybodaeth
- eraill – gan gynnwys Deddf Cydraddoldeb 2010 a deddfwriaeth iechyd a diogelwch, lle mae gennym rai dyletswyddau adrodd.

Efallai y bydd angen i ni hefyd ddatgelu gwybodaeth yn unol â phrosesau barnwrol neu lys.

Rydym hefyd yn ystyried:

- Rheoliadau Meddyginiaethau Dynol 2012
- Deddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971 a Rheoliadau Camddefnyddio Cyffuriau 2001
- Deddf Gwenwynau 1972
- Rheoliadau Meddyginiaethau Milfeddygol 2013.

Rhyddid Gwybodaeth

Yn rhan o'n cyfrifoldebau dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (RhG) 2000, rydym wedi mabwysiadu'r **cynllun cyhoeddi model** sydd wedi ei gymeradwyo gan y Comisiynydd Gwybodaeth ar gyfer pob rheoleiddiwr iechyd. Mae hyn yn golygu ei bod yn ofynnol i ni gyhoeddi gwybodaeth megis cofrestru gweithwyr proffesiynol a rhestri cyrsiau cymeradwy, yn ogystal â gwybodaeth am y CFfC fel sefydliad, ei bolisiau a'i benderfyniadau. Mae ein **Canllaw i Wybodaeth** yn nodi'r wybodaeth yr ydym yn sicrhau ei bod ar gael yn rheolaidd. Mae'r cynllun hefyd yn disgrifio'r amgylchiadau lle nad oes gofyn i ni wneud gwybodaeth ar gael.

Rhaid i ni hefyd ddatgelu gwybodaeth os derbyniwn geisiadau am wybodaeth gan aelodau'r cyhoedd ac eraill. Ond nid oes rhaid i ni wneud hyn os yw'r wybodaeth wedi ei 'heithrio' rhag cael ei datgelu. Gallai hyn fod, er enghraifft, am ei bod yn wybodaeth bersonol am rywun arall, wedi ei darparu'n gyfrinachol, neu y byddai'n effeithio'n andwyol ar ein gallu i wneud ein gwaith rheoleiddio.

4. Sut rydyn ni'n gwneud penderfyniadau ynghylch cyhoeddi neu ddatgelu

Mewn amgylchiadau eraill, byddwn yn penderfynu a fyddwn yn cyhoeddi neu ddatgelu gwybodaeth ai peidio. Wrth wneud hyn, rydym yn ystyried ein hamcanion a lles y cyhoedd ochr yn ochr â lles yr unigolyn dan sylw. Gan mai ein hamcan cyffredinol dan y Gorchymyn Fferylliaeth yw diogelu'r cyhoedd yn amlach na pheidio bydd lles y cyhoedd yn drech na lles yr unigolyn.

Wrth benderfynu ynghylch pa wybodaeth byddwn yn ei chyhoeddi neu'n ei datgelu rydym yn ymrwymedig at:

- fod yn agored, yn dryloyw ac yn deg o ran y prosesau a ddefnyddiwn a'r penderfyniadau a wnawn o ran datgelu wybodaeth yn gyfreithlon ac yn gymesur
- cyflawni'r dyletswyddau cyfreithiol sydd arnom i ddiogelu data personol a chyflawn dyletswydd gyfrinachedd y gyfraith gyffredin
- ymdrin â gwybodaeth ddilys, masnachol sensitif³ yn gyfrinachol (os yw RhG a gofynion cyfreithiol eraill yn caniatáu hynny)
- cyhoeddi gwybodaeth mewn fformat hygyrch pan yn bosibl.

Byddwn hefyd yn ystyried y '**Protocol Pryderon sy'n Dod i'r Amlwg**', a lofnodwyd ar y cyd gan y CFC ac wyth sefydliad arall ym maes iechyd a gofal cymdeithasol ym mis Gorffennaf 2018. Mae'r cytundeb hwn yn ceisio darparu mecanwaith wedi'i ddiffinio'n glir ar gyfer sefydliadau sydd â rôl mewn ansawdd a diogelwch ddarpariaethau gofal i rannu gwybodaeth a phethau a allai awgrymu risgiau i ddefnyddwyr gwasanaethau, eu gofalwyr, eu teuluoedd neu weithwyr proffesiynol.

Gallai hyn gynnwys:

- sefyllfaoedd nad ydynt o raid yn argyfyngau, ond a allai awgrymu risg yn y dyfodol
- materion diwylliannol o fewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol y gellir sylwi arnynt, ond na fyddai o anghenraid yn cael eu codi drwy systemau ffurfiol eraill.

5. Budd y cyhoedd

Gydol y polisi hwn a'i atodiadau, rydym yn sôn am gyhoeddi neu ddatgelu er lles y cyhoedd. Rydym yn ystyried lles y cyhoedd mewn perthynas â chyhoeddi neu ddatgelu gwybodaeth bersonol a gwybodaeth sy'n fasnachol sensitif. Rydym yn ystyried ein prif amcan a'r gyfraith berthnasol pan fo hyn yn briodol, wrth benderfynu a ddylid cyhoeddi neu ddatgelu gwybodaeth ai peidio.

Mae gweld y CFfC yn cyflawni ei amcanion fel rheoleiddiwr a hybu a chynnal y canlynol er lles y cyhoedd:

- iechyd, diogelwch a lles y cyhoedd
- ffydd y cyhoedd yn y proffesiynau fferyllol
- safonau rheoleiddiol y CFfC.

Wrth ystyried a ddylid datgelu gwybodaeth bersonol, rhaid i ni gadw at deddfwriaeth diogelu data a deddfwriaeth hawliau dynol.

Wrth benderfynu a ydym am ddatgelu ai peidio, rhaid i ni fod yn fodlon bod datgelu yn:

- gyfreithlon, ac yn ateb un o'r amodau ar gyfer prosesu a roddir yn neddfwriaeth diogelwch data, a bod ei gynnwys yn angenrheidiol

³ Mae'r CFfC yn ystyried gwybodaeth fasnachol sensitif yn wybodaeth nad yw ar gael yn y parth cyhoeddus nac ar gael i'r cyhoedd. Gall fod yn gyfrinach masnach, a fyddai'n rhagfarnu buddiannau masnachol unrhyw berson (unigolyn, y cwmni neu unrhyw endid cyfreithiol arall), neu a fyddai'n debygol o wneud hynny, gall danseilio buddiant economaidd neu sefyllfa gystadleuol perchennog y wybodaeth ac, os caiff ei datgelu, byddai'n agored i achosi niwed gwirioneddol (neu sylweddol) i'r perchennog neu fod yn fanteisiol i unrhyw gystadleuwyr. Dylid nodi y bydd pob sefyllfa yn cael ei hystyried fesul achos a gweithredir arni yn unol â diffiniad gweithredol y term.

Polisi cyhoeddi a datgelu CFfC GPHC0034 Fersiwn 6

- angenrheidiol i'n galluogi i wneud ein gwaith statudol a rheoleiddiol dan y Gorchymyn Fferylliaeth, ei Reolau neu ddeddfwriaeth berthnasol arall, a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r cyhoedd am hyn oll.

Os ydyw, mae angen i ni wedyn ystyried a oes cyfiawnhad dros ddatgelu. Ydy datgelu o les i'r cyhoedd, o'i gymharu a'i gydbwyso gyda hawl yr unigolyn at breifatrwydd dan ddeddfwriaeth diogelu data, deddfwriaeth hawliau dynol a dyletswydd cyfrinachedd y gyfraith gyffredin? Wrth ystyried hyn, rydym yn ystyried:

- unrhyw bŵer penodol neu ymhlyg sy'n caniatáu i ni ddatgelu neu gyhoeddi
- natur, diben ac ansawdd y wybodaeth
- pa mor briodol ac angenrheidiol mae datgelu neu gyhoeddi'r wybodaeth
- effaith datgelu, gan gynnwys y posibilrwydd y bydd datgelu'n achosi niwed neu drallod i'r unigolyn/sefydliad
- y niwed posibl y gellid ei achosi pe na baem yn datgelu'r wybodaeth.

Rhaid i ni sicrhau ein bod yn cadw at egwyddorion diogelu data – er enghraifft, rhaid i'r wybodaeth a ddatgelwn fod yn gyfyngedig i'r hyn sydd ei angen i gyflawni diben cyfreithiol cyffredinol y datgeliad.

Rydym yn ystyried budd y cyhoedd wrth ymateb i geisiadau am wybodaeth, er enghraifft, gan:

- gyflogwr gweithwyr fferyllol proffesiynol, neu asiantaethau eraill sydd ynghlwm wrth recriwtio, yn gofyn i ni am wybodaeth bersonol am eu cyflogeion, ac
- awdurdodau cyhoeddus eraill yn gofyn i ni ddatgelu gwybodaeth bersonol. Er enghraifft, gallai sefydliadau'r GIG ofyn i ni am wybodaeth er mwyn cael gwybod am sefyllfa broffesiynol aelod cofrestredig

Wrth ystyried datgelu gwybodaeth fasnachol sensitif, byddwn hefyd yn ystyried lles y cyhoedd yn erbyn lles masnachol y busnes dan sylw. Gall darparwr dynnu ein sylw at ddeunydd masnachol sensitif. Fodd bynnag, ni sydd â'r penderfyniad terfynol ynghylch datgelu ai peidio, ac efallai y bydd RhG neu ddeddfwriaethau eraill ar waith ar gyfer y deunydd.

Nid ydym fel arfer yn cyhoeddi nac yn datgelu gwybodaeth am ymchwiliadau sy'n mynd rhagddynt, oni bai ein bod yn ystyried y byddai cyhoeddi o les i'r cyhoedd ac yn gymesur. Y rheswm am hyn yw nad ydym am gyhoeddi neu ddatgelu gwybodaeth a allai rhagfarnu neu effeithio'n andwyol ar ymchwiliad gan y CFfC neu sefydliad arall.

6. Gwerthuso, adolygu a chytuno

Mae'r polisi hwn, a'r atodiadau cysylltiedig, wedi eu cytuno gan gyfarwyddwyr adrannau perthnasol.

Byddwn yn adolygu'r atodiadau'n gyson, naill ai'n unigol neu ar y cyd, er mwyn:

- ystyried newidiadau i ddeddfwriaeth a'r gyfraith achosion
- sicrhau eu bod yn parhau'n 'addas at eu diben' ac yn hygyrch i'n holl randdeiliaid.

7. Rhagor o wybodaeth a manylion cyswllt

Y CFfC yw'r rheolwr data ar gyfer y wybodaeth bersonol mae'n ei chasglu am aelodau cofrestredig ac unigolion eraill. Mae ein **polisi preifatrwydd** yn cynnwys rhagor o fanylion am y ffordd y defnyddiwn wybodaeth a'ch hawliau chi dan ddeddfwriaeth diogelu data. Os oes gennych gwestiynau neu ymholiadau ynghylch eich gwybodaeth, cysylltwch â'r:

Swyddog Diogelu Data
Cyngor Fferyllol Cyffredinol
25 Canada Square
Llundain
E14 5LQ

E-bost: foi@pharmacyregulation.org
Rhif Ffôn: 020 3713 8000

Os ydych am wneud cais am wybodaeth nad yw'n cael ei chyhoeddi dan y polisi hwn, gallwch weld gwybodaeth ynghylch **gwneud cais Rhyddid Gwybodaeth (RhG) ar ein gwefan**, neu gallwch gysylltu â ni drwy ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod. Rydym yn dilyn gweithdrefnau sefydledig RhG wrth ystyried pob cais, ac yn defnyddio egwyddorion adran 5 y polisi hwn i benderfynu ar les y cyhoedd wrth ddatgelu gwybodaeth.

Atodiad A: Canllawiau cyhoeddi a datgelu – unigolion (addasrwydd i ymarfer)

A.1 Cyflwyniad a diben

Mae'r atodiad hwn yn disgrifio ein hagwedd tuag at gyhoeddi a datgelu gwybodaeth addasrwydd i ymarfer ynghylch unigolion. Mae hyn yn cynnwys:

- unigolion sydd wedi eu cofrestru'n weithwyr fferyllol proffesiynol ('aelodau cofrestredig')
- unigolion eraill, yn cynnwys pobl sy'n mynegi pryderon, tystion, cyflogwyr, cleifion a defnyddwyr fferyllfeydd.

Mae'r atodiad yn trafod yr hyn a gyhoeddwn ar-lein ar ein cofrestr gyhoeddus ac ar ein gwefan, a'r hyn y galllem ei ddatgelu ar gamau gwahanol o'r broses addasrwydd i ymarfer. Dylid ei ddarllen a'i ystyried ochr yn ochr â'r prif bolisi.

1. Ein proses addasrwydd i ymarfer

Rydym yn adolygu ac asesu pob gofid a fynegir wrthym yn ofalus, ac yn ystyried a oes angen i ni agor ymchwiliad. Dim ond pan fônt yn awgrymu y gallent gyflwyno risg i ddiogelwch cleifion neu y gallent effeithio ar ffydd y cyhoedd mewn gweithwyr fferyllol proffesiynol yr ydym yn ymchwilio i bryderon. Gall pryderon yr ymchwiliwn iddynt hefyd gael eu hystyried gan bwyllgor annibynnol, yn dibynnu ar natur y gofid. Mae **rhagor o wybodaeth** am hyn ar ein gwefan;.

2. Y cefndir cyfreithiol

Rydym yn cyhoeddi gwybodaeth drwy gydol y broses addasrwydd i ymarfer pan fo'n gyfreithlon, yn gymesur, ac er lles y cyhoedd i wneud hynny a'n deddfwriaeth ein hunain yn caniatáu i ni wneud. Mae penderfyniadau a wneir gan ein pwyllgorau statudol yn enghraifft o'r wybodaeth hon. Hefyd, dan Erthygl 50 Deddf Fferylliaeth 2010, efallai y datgelwn wybodaeth addasrwydd i ymarfer am aelodau cofrestredig unigol er lles y cyhoedd. Er enghraifft, efallai y datgelwn wybodaeth mewn ymateb i gais gan gyflogwr am wybodaeth ynghylch aelod.

A.2 Sut rydyn ni'n cyhoeddi gwybodaeth addasrwydd i ymarfer

3. Ein cofrestr ar-lein

Dan Erthygl 19(7) y Gorchymyn Fferylliaeth, mae'n rhaid i ni gyhoeddi gwybodaeth o'n cofrestr. Rydym yn cyhoeddi'r wybodaeth hon ar ffurf cofrestr ar-lein, sy'n cynnwys manylion fferyllwyr, technegwyr fferyllol a lleoliadau fferyllol. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth addasrwydd i ymarfer gyfredol a hanesyddol. Nodir natur y wybodaeth hon a'r cyfnod y'i cyhoeddir yn nhabl 1 isod.

Mae'r gofrestr ar-lein yn dangos pob aelod cofrestredig presennol a'r rhai sydd wedi eu gwahardd dros dro neu eu dileu o'r gofrestr gan y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer. Nid yw'n dangos enwau unigolion y mae eu haelodaeth wedi ei dileu'n weinyddol, na rhai sydd wedi eu dileu eu hunain o'u gwirfodd o'r gofrestr.

4. Ein gwefan

Yn ogystal â chyhoeddi'r gofrestr, rydym hefyd yn defnyddio'n gwefan i sicrhau tryloywder ynghylch gwrandawiadau a phenderfyniadau addasrwydd i ymarfer. Nodir isod sut rydyn ni'n defnyddio'r wefan i gyhoeddi'r wybodaeth hon a pha wybodaeth a gyhoeddwn.

Rydym yn cyhoeddi **rhestr o benderfyniadau gwrandawiadau, y mae modd chwilio drwyddi** o brif wrandawiadau'r Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer. Mae dogfen benderfynu yn cynnwys penderfyniad y pwyllgor, a'r sancsiwn a roddwyd, a'r rhesymau dros y penderfyniad. Mae hon yn aros ar ein gwefan am 12 mis o'r dyddiad cyhoeddi mewn unrhyw achos lle mae nam ar addasrwydd aelod i ymarfer. Rydym yn rhestru penderfyniadau diweddaraf y pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer, heblaw am adegau pan fo'r mater yn ymwneud ag iechyd aelod, neu pan fo'n orchymyn dros dro neu'n fath arall o wrandawriad preifat. Rydym hefyd yn cyhoeddi'r penderfyniadau diweddaraf o'r rhestr hon yn ein **'cyhoeddiad ar-lein 'Regulate'**.

Mae penderfyniadau cyhoeddedig yn parhau i fod ar gael o ddolen ar gofnod cofrestr ar-lein cofrestrydd penodol am y cyfnodau a nodir yn y tabl isod.

Byddwn hefyd yn cynnwys penderfyniadau'r Pwyllgor Apeliadau ar y rhestr (gwrandawiadau cyhoeddus yn unig). Mae rhagor o wybodaeth am **y Pwyllgor Apeliadau** ar ein gwefan.

Rydym yn cyhoeddi penderfyniadau ymhob achos pan fo nam ar addasrwydd aelod cofrestredig aelod i ymarfer. Os bydd y pwyllgor yn penderfynu nad oes nam ar addasrwydd aelod i ymarfer, ac nad oes rhybudd wedi ei roi, bydd y penderfyniad yn cael ei gyhoeddi am dri mis, ond dim ond os yw'r aelod yn gofyn am, neu'n cytuno i, gyhoeddi dan Erthygl 54(5).

Nid ydym yn cyhoeddi trawsgrifiadau llawn o wrandawiadau.

5. Amserlen gwrandawiadau

Ar gyfer y pryderon mwyaf difrifol efallai y cynhelir gwrandawriad. Mae rhagor o wybodaeth am **yr hyn sy'n digwydd mewn gwrandawriad** ar ein gwefan. Rydym yn rhoi manylion gwrandawiadau ar amserlen gyhoeddus ein gwefan, gynted ag y penderfynir ar ddyddiad ac y cyhoeddir yr hysbysiad. Mae'r amserlen yn dangos enw'r aelod cofrestredig, ei rif aelodaeth a'r dref bost, ynghyd â chrynodeb o'r pryder neu natur y gwrandawriad. Cyhoeddir y manylion o leiaf 28 niwrnod cyn y gwrandawriad, a byddant yn aros yn eu lle tan ddiwedd y mis y cynhelir y gwrandawriad ynddo. Mae gwrandawiadau sy'n cael eu canslo neu eu gohirio yn cael eu dileu o'r amserlen.

A.3 Cyhoeddi a datgelu gwybodaeth addasrwydd i ymarfer ynghylch unigolion

Rydym yn cyhoeddi gwybodaeth drwy gydol y broses addasrwydd i ymarfer pan fo'n gyfreithlon, yn gymesur, ac er lles y cyhoedd i wneud hynny a'n deddfwriaeth ein hunain yn caniatáu i ni wneud.

6. Yn ystod ymchwiliad

Nid ydym fel arfer yn cyhoeddi gwybodaeth am ymchwiliadau sy'n mynd rhagddynt, oni bai ein bod yn ystyried y byddai cyhoeddi o les i'r cyhoedd.

Rydym yn dweud wrth yr aelod cofrestredig ein bod wedi derbyn pryder am ei addasrwydd i ymarfer. Efallai y dywedwn hefyd wrth ei gyflogwr, os yw gwneud hynny o fudd i'r cyhoedd. Oni bai bod y person sydd wedi mynegi'r pryder wedi cytuno i gael ei enwi, efallai na fyddwn yn rhannu gwybodaeth gyda'r cyflogwr neu'r aelod cofrestredig os bydd hynny'n datgelu pwy ydyw.

Ni fyddwn yn dweud wrth yr aelod cofrestredig ein bod wedi derbyn pryder os bydd hynny'n rhagfarnu neu'n effeithio'n andwyol ar ein hymchwiliad ni neu ymchwiliad corff arall.

Ni fyddwn fel arfer yn datgelu, i'r person sy'n mynegi'r pryder, ymateb yr aelod cofrestredig i unrhyw gais am wybodaeth. Fodd bynnag, efallai y datgelwn hyn ar sail 'achos-wrth-achos' os teimlwn y byddai hynny'n iawn i'w wneud dan egwyddorion 'tegwch gweithdrefnol'.⁴ Os bydd trydydd parti'n gofyn i weld ymateb yr aelod i honiadau, byddwn yn ystyried hyn hefyd ar sail achos-wrth-achos. Cyn i ni ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn gofyn am ganiatâd yr aelod i'w datgelu. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, efallai y byddwn yn ei datgelu pan na fu modd cael caniatâd. Gallai hyn ddigwydd pe bai er lles y cyhoedd, yn enwedig pe bai'n ymwneud â diogelwch y cyhoedd.

Ni fyddwn yn datgelu gwybodaeth na manylion personol nad ydynt yn berthnasol i'r achos.

Rydym yn sicrhau bod pawb sy'n berthnasol i achos yn cael y wybodaeth ddiweddaraf wrth i achos fynd yn ei flaen: hynny yw, y person a fynegodd y pryder, yr aelod cofrestredig, a'i gyflogwyr.

Rydym yn rhoi gwybod am ganlyniad yr ymchwiliad i'r aelod cofrestredig a'r bobl a fynegodd y pryder. Rydym hefyd yn dweud wrth gyflogwyr presennol, a'r asiantaethau perthnasol eraill a gafodd wybod gennym yn wreiddiol am yr ymchwiliad.

Wedi i achos gael ei gyfeirio at y Pwyllgor Ymchwilio (PY), byddwn yn datgelu hyn i:

- yr unigolyn neu'r sefydliad a wnaeth yr honiad
- cyflogwr yr aelod
- unrhyw un arall sydd wedi cyflogi'r aelod i ddarparu gwasanaethau
- yr Ysgrifennydd Gwladol, Gweinidogion yr Alban, a Gweinidogion Cymru⁵
- yr Adran Iechyd, Gwasanaethau a Public Safety Gogledd Iwerddon, os yw'r aelod hefyd yn gofrestrdig gyda Chymdeithas Fferyllol Gogledd Iwerddon⁶, ac
- unrhyw reoleiddiwr iechyd neu ofal cymdeithasol arall y gwyddom bod yr aelod hefyd yn gofrestrdig gydag ef.

Rydym yn rhoi gwybod am ganlyniad cyfarfod y PY i'r aelod a'r rhai a restrir uchod.

Rydym yn datgelu gwybodaeth am ymchwiliad i gyflogwyr a, phan yn briodol, asiantaethau cyflogaeth (neu locwm), os ydym yn ystyried bod hyn er budd y cyhoedd. Byddem yn gwneud hyn, er enghraifft, pan fyddai'r materion sy'n cael eu hymchwilio iddynt yn creu pryderon yn ddi-oed am ddiogelwch cleifion neu'r cyhoedd. Nid ydym yn datgelu gwybodaeth i gyflogwyr nac asiantaethau cyflogaeth (locwm) heb ganiatâd yr aelod cofrestredig, oni bai bod hynny er budd y cyhoedd.

⁴ *Henshall v Cyngor Meddygol Cyffredinol* [2005] EWCA Civ 1520 – yn gyffredinol, ni ddylai paneli ystyried tystiolaeth lle dylai achwynwyr fod wedi cael y cyfle i ymateb ond nad ydynt wedi cael y cyfle hwnnw.

⁵ Erthygl 52 Gorchymyn Fferylliaeth 2010

⁶ Erthygl 52 Gorchymyn Fferylliaeth 2010

7. Y Pwyllgor Ymchwilio (PY)

Mae'r PY yn bwyllgor statudol annibynnol. Mae darpariaethau cyfrinachedd yn rhwymo holl aelodau'r PY.

Mae'r PY yn cwrdd yn breifat. Gallwch ddarllen **rhagor o wybodaeth am gyfarfodydd y PY a'r PY** ar ein gwefan. Nid ydym yn cyhoeddi cofnod o'r cyfarfod, na manylion penderfyniad na'r rhesymau drosto ac nid ydym yn cyhoeddi manylion yn ymwneud â materion iechyd. Dim ond rhai o ganlyniadau'r PY rydym yn eu cyhoeddi, yn cynnwys:

- pan mai rhybudd fydd y canlyniad – bydd geiriad y rhybudd neu grynodedb ohono yn ymddangos ar y gofrestr ar-lein ⁷
- pan fo addewidion wedi eu cytuno – bydd y ffaith bod aelod wedi cytuno ar addewidion yn ymddangos ar y gofrestr ar-lein.

Gynted ag y bydd y PY wedi penderfynu cau achos, byddwn yn hysbysu'r aelod, a'r bobl a'r grwpiau yr hysbyson ni nhw'n wreiddiol am gyfarfod y PY, o'r canlyniad.

Os yw honiad i gael ei ystyried gan Bwyllgor Addasrwydd Ymarfer, rydym yn dweud wrth yr aelod a'r bobl neu'r grwpiau a hysbyswyd yn wreiddiol o gyfarfod y PY. Rydym hefyd yn rhoi dyddiad y cyfarfod iddyn nhw.

8. Y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer (PAY)

Mae'r pwyllgor yn cwrdd yn gyhoeddus fel arfer. Fodd bynnag, mae rhai adegau pan fydd yn cwrdd yn breifat neu'n mynd i sesiwn breifat – i ystyried materion yn ymwneud ag iechyd er enghraifft. Byddwn fel arfer yn cyhoeddi gwybodaeth ar ein gwefan a'n cofrestr ar-lein ynghylch holl ganlyniadau'r PAY. Fodd bynnag, os bydd unrhyw faterion preifat neu sensitif, ni fydd y penderfyniadau hyn yn cael eu cyhoeddi neu byddant yn cael eu cyhoeddi ar ffurf wedi ei golygu. Gallwch ddarllen **rhagor o wybodaeth am y PAY a'i gyfarfodydd** ar ein gwefan.

Wedi i'r PAY gwrdd, byddwn yn dweud wrth y bobl neu'r grwpiau sydd wedi bod yn derbyn diweddariadau gydol y broses am y canlyniad.

Bydd y Cofrestrydd yn hysbysu'r aelod cofrestredig o'r canlyniad, a phan yn berthnasol, y person a fynegodd y pryder⁸.

Yn ogystal â'r wybodaeth a gyhoeddwn ar y gofrestr ac ar ein gwefan, efallai y rhown ragor o wybodaeth i gyflogwyr a nifer gyfyngedig o gyrff perthnasol, megis rheoleiddwyr eraill.

Os na fyddwn yn cyhoeddi manylion penderfyniad, efallai y byddwn yn datgelu'r rhain ar sail achos-wrth-achos gan ystyried lles y cyhoedd a deddfwriaeth diogelu data.

Byddwn yn ystyried unrhyw geisiadau gan bartïon â diddordeb am wybodaeth addasrwydd i ymarfer nad yw'n gyhoeddus, neu'n dal ar gael yn gyhoeddus, yng nghyd-destun lles y cyhoedd fel y disgrifir uchod.

⁷ Nodir y cyfnod y bydd hyn, a'r sancsiynau eraill a grybwyllir drwy gydol y canllawiau, yn aros ar y gofrestr ar-lein yn nhabl 1

⁸ Erthygl 54(5)(b) Gorchymyn Fferylliaeth 2010

i. Trawsgrifiadau

Byddwn yn darparu copi o drawsgrifiad o wrandawriad yn rhad ac am ddim i'r aelod cofrestredig neu gynrychiolydd yr aelod ar gais. Byddwn hefyd yn darparu'r trawsgrifiad i gynrychiolydd y CFFC os bydd angen.

Byddwn yn ymateb i geisiadau am drawsgrifiadau gan bobl eraill yn unol â'r polisi hwn a'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth neu ddarpariaethau cais gwrthrych am wybodaeth y Ddeddf Diogelu Data fel y bo'n briodol:

- Ni fyddwn yn datgelu trawsgrifiadau o wrandawriadau preifat na gwrandawriadau gorchmynion dros dro, a gynhelir yn breifat neu ar gyfer gwrandawriadau eraill lle nad yw'r penderfyniad yn cael ei gyhoeddi.
- Byddwn yn gwirio ac yn golygu gwybodaeth gyfrinachol o'r trawsgrifiad cyn ei datgelu.
- Dim ond tra bo'r penderfyniad yn parhau i gael ei gyhoeddi y byddwn yn datgelu trawsgrifiadau (gweler tabl 1 isod).
- Os bydd gennym gopi o'r trawsgrifiad eisoes, byddwn yn ei ddarparu yn rhad ac am ddim. Os bydd yn rhaid i ni gynhyrchu trawsgrifiad i ymateb i'r cais, byddwn yn codi tâl i dalu am y gost o gynhyrchu'r trawsgrifiad. Bydd hyn yn amrywio, yn dibynnu ar hyd y gwrandawriad ac fel canllaw, gallai'r gost ar gyfer gwrandawriad 3 diwrnod fod tua £500-600. Byddwn yn rhoi dyfynbris cyn bwrw ymlaen.
- Ni fyddwn yn datgelu'r recordiad sain gwreiddiol.

ii. Penderfyniadau nad oes nam

Pan fydd y pwyllgor yn penderfynu nad oes nam ar addasrwydd i ymarfer, a heb gyflwyno rhybudd, dim ond ar gais yr aelod cofrestredig y bydd y CFFC yn cyhoeddi canlyniad gwrandawriad, neu pan fo'r CFFC wedi gofyn am ganiatâd gan yr aelod dan sylw a'r caniatâd hwnnw wedi ei roi. Os bydd yr aelod yn gofyn am gyhoeddi'r canlyniad, neu os bydd y CFFC wedi derbyn caniatâd, bydd y penderfyniad yn cael ei gyhoeddi ar wefan y CFFC am dri mis. Byddwn yn gofyn i aelodau, fel mater o drefn, a ydyw'n dymuno gweld y penderfyniad wedi ei gyhoeddi mewn achosion o'r fath. Os na fydd yr aelod am i ganlyniad y gwrandawriad gael ei gyhoeddi, bydd pob cyfeiriad at y gwrandawriad yn cael ei ddileu o'r wefan. Cyhoeddir rhybuddion fel y nodir yn nhabl 1.

Bydd pob cais am wybodaeth yn ymwneud ag achosion lle penderfynwyd nad oedd nam ar addasrwydd i ymarfer yn cael ei ystyried dan y gweithdrefnau RhG sefydledig. Mae'r dull gweithredu hwn yn deg i'r aelod cofrestredig ac yn cadw at ein darpariaethau deddfwriaethol.

9. Cyhoeddi gwybodaeth ar y gofrestr ar-lein

Rhaid i'r hyn sy'n cael ei gyhoeddi, lefel y manylion a gyhoeddir, a'r cyfnod y bydd ar gael yn gyhoeddus fod yn gymesur. Rhaid iddo daro cydbwysedd rhesymol rhwng lles y cyhoedd a thegwch i bawb sydd ynghlwm wrth y broses. Gellir golygu pob penderfyniad neu grynodedb a gyhoeddir ar y gofrestr er mwyn dileu gwybodaeth sensitif – materion yn ymwneud ag iechyd, er enghraifft .

Cyhoeddir gwybodaeth o fewn pum niwrnod i ddiwedd y gwrandawriad a bydd yn aros ar y gofrestr am gyfnod ychwanegol ar ôl diwedd y sancsiwn yn unol â difrifoldeb y sancsiwn (gweler tabl 1 isod). Os bydd aelod yn derbyn sancsiwn gwahardd dros dro, bydd ei statws ar y gofrestr wedi ei ddiwygio am gyfnod cyfan y sancsiwn.

i. Penderfyniadau y gellir apelio yn eu herbyn

Mae gan gofrestrydd hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau lle mai amodau, gwaharddiad dros dro neu ddileu o'r Gofrestr yw'r sanctsiwn. Gall wneud apêl hyd at 28 diwrnod o'r dyddiad yr anfonwyd yr hysbysiad ysgrifenedig o'r rhesymau dros y penderfyniad⁹ oni bai bod y llys yn ymestyn hyn. Mae gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol hefyd hawl i apelio hyd at 67 diwrnod o ddyddiad yr hysbysiad hwnnw. Cyhoeddir penderfyniadau yn fuan ar ôl i'r gwrandawriad ddod i ben, gyda hysbysiad yn esbonio'r cyfnod apelio ac nad yw sanctsiynau'n dod i rym tan ddiwedd y cyfnod apelio. Os bydd aelod yn apelio, bydd y penderfyniad yn cael ei ddisodli gan hysbysiad yn nodi'r penderfyniad a wnaed gan y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer a bod y penderfyniad wedi'i herio a bod apêl wedi'i gwneud.

Gall y Pwyllgor osod mesurau dros dro os yw'n hyderus bod eu hangen i ddiogelu'r cyhoedd, neu eu bod er budd y cyhoedd mewn rhyw ffordd arall neu er budd yr aelod cofrestredig. Bydd unrhyw fesurau dros dro'n dod i rym yn syth a gallant fod ar waith am y cyfnod apelio 28 niwrnod. Os bydd yr aelod yn apelio yn erbyn y penderfyniad, bydd mesurau dros dro'n aros mewn grym tan i'r apêl honno gael ei phenderfynu. Adlewyrchir hyn ar y gofrestr ar-lein a chyhoeddir manylion y mesurau dros dro.

Wedi i unrhyw apêl ddod i ben, bydd y wybodaeth a gyhoeddir gennym yn dibynnu ar ganlyniad yr apêl. Er enghraifft, os caiff y penderfyniad gwreiddiol ei gadarnhau, byddwn yn cyhoeddi'r penderfyniad gwreiddiol. Os na fydd y penderfyniad yn cael ei gadarnhau, byddwn yn cyhoeddi'r sanctsiwn a osodwyd gan y Llys. Os bydd apêl yn llwyddiannus, byddwn yn dileu pob cyfeiriad at yr achos o'r gofrestr ac o'n gwefan. Os bydd y Llys yn dweud y dylai gwrandawriad newydd gael ei gynnal gerbron y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer, byddwn yn cyhoeddi'r penderfyniad yn dilyn y gwrandawriad hwnnw, wedi iddo gael ei gynnal. Fodd bynnag, os bydd y Pwyllgor, yn dilyn prif wrandawriad, yn canfod nad oes nam ar addasrwydd aelod cofrestredig i ymarfer, dim ond os bydd yr aelod cofrestredig dan sylw yn gofyn neu'n cydsynio i'r penderfyniad gael ei gyhoeddi y byddwn yn cyhoeddi penderfyniad y Pwyllgor.

Tabl 1. Llinellau amser ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth addasrwydd i ymarfer ar y Cofrestrau

Canlyniad	Sut bydd 'statws' yn ymddangos ar y gofrestr ar-lein am gyfnod cyfan y sanctsiwn	Sut bydd y wybodaeth berthnasol yn cael ei chyflwyno	Y cyfnod y bydd gwybodaeth 'addasrwydd i ymarfer' yn para ar y gofrestr ar-lein
Rhybudd gan y PY	'Cofrestrwyd'	Gyda'r rhybudd neu'r crynodeb wedi ei atodi	1 flwyddyn
Rhybudd gan y PAY ¹⁰	'Cofrestrwyd'	Gyda'r penderfyniad a'r rhybudd neu grynodedb wedi ei atodi	1 flwyddyn
Addewid drwy'r PY	'Cofrestrwyd'	Ffaith yr addewid	Hyd yr addewid ac 1 flwyddyn

⁹ Erthygl 58(3) Gorchymyn Fferylliaeth 2010

¹⁰ Yn cynnwys rhybuddion lle na chanfyddir unrhyw nam (Erthygl 54(5) Grchymyn Fferylliaeth 2010)

Canlyniad	Sut bydd 'statws' yn ymddangos ar y gofrestr ar-lein am gyfnod cyfan y sancsiwn	Sut bydd y wybodaeth berthnasol yn cael ei chyflwyno	Y cyfnod y bydd gwybodaeth 'addasrwydd i ymarfer' yn para ar y gofrestr ar-lein
Addewid drwy'r PAY	'Cofrestrwyd'	Gyda'r penderfyniad neu grynodedd wedi ei atodi	Hyd yr addewid ac 1 flwyddyn
Amodau	'Cofrestrwyd'	Gyda'r penderfyniad neu grynodedd wedi ei atodi, gan gynnwys manylion unrhyw fesurau dros dro	Hyd yr amodau ynghyd ac 1 flwyddyn*
Gwaharddiad dros dro	'Gwaharddwyd dros dro'	Gyda'r penderfyniad neu grynodedd wedi ei atodi, gan gynnwys manylion unrhyw fesurau dros dro	Cyfnod y gwaharddiad dros dro a 2 flynedd*
Dilëwyd gan y PAY**	'Dilëwyd'	Atodir y penderfyniad neu grynodedd, gan gynnwys manylion unrhyw fesurau dros dro	5 mlynedd*
Mesurau dros dro	'Gwaharddiad dros dro' neu 'amodau'	Crynodeb neu'n rhan o benderfyniad	Hyd mesurau dros dro. Bydd statws ar y gofrestr yn newid os mai gwahardd dros dro yw'r mesur dros dro.
Adfer (neu aildderbyn***) i'r gofrestr wedi gwaharddiad gan y PAY	'Cofrestrwyd'	Gyda phenderfyniad y gwrandawriad adfer neu grynodedd wedi ei atodi	5 mlynedd o ddyddiad yr adferiad
Gorchymyn dros dro gan y PAY	'Gwaharddwyd dros dro'	Gyda'r crynodeb wedi ei atodi	Cyfnod y gorchymyn
Gorchymyn dros dro gydag amodau gan y PAY	'Cofrestrwyd'	Gyda'r crynodeb wedi ei atodi	Cyfnod y gorchymyn

*Gellir apelio yn erbyn y penderfyniadau hyn a byddant yn dod i rym gynted ag y daw'r cyfnod apelio 28 diwrnod i ben, neu pan ddaw apêl a godwyd gan yr aelod cofrestredig i ben. Cyhoeddir penderfyniadau neu grynodeddau ar ôl y gwrandawriad.

**Wedi 10 mlynedd bydd cofnod y person ar y gofrestr yn cael ei ddileu.

***Mae aildderbyn i'r gofrestr ar waith ddim ond ar gyfer pobl a waharddwyd gan bwyllgor o Gymdeithas Fferyllol Frenhinol Prydain.¹¹

ii. Gwrandawiadau adolygu

Cyhoeddir penderfyniadau gwrandawiadau adolygu ar gofnod y person ar y gofrestr, waeth beth yw canlyniad y gwrandawriad.

Efallai y bydd amgylchiadau lle bydd aelod yn derbyn amodau ar ei aelodaeth mewn gwrandawriad adolygu, cyn dychwelyd i'r gofrestr ar ôl cyfnod o waharddiad dros dro. Os felly, bydd pob canlyniad yn cael ei drin ar wahân, gan ddefnyddio'n cyfnodau cyhoeddi a nodir yn nhabl 1.

iii. Dileu ac adfer

Os caiff aelod cofrestredig ei ddileu o'r Gofrestr, bydd ei statws cofrestru yn ymddangos fel 'wedi'i ddileu'. Bydd y penderfyniad yn cael ei gyhoeddi am bum mlynedd. Ar ôl 10 mlynedd ers y dyddiad y dileu, bydd cofnod cyfan y cyn aelod cofrestredig yn cael ei ddileu.

Os bydd cais i adfer aelodaeth yn llwyddiannus, bydd statws yr aelod ar y gofrestr yn dangos 'cofrestredig', a byddwn yn cyhoeddi penderfyniad y gwrandawriad adfer, neu grynodedb ohono, ar gofnod yr aelod ar y gofrestr. Os cynhaliwyd y gwrandawriad yn gyhoeddus, bydd y penderfyniad hefyd yn ymddangos wrth chwilio am benderfyniadau am flwyddyn.

Os bydd cais adfer, wedi ei wneud o fewn 10 mlynedd i'r adeg y cafodd aelod ei ddileu, yn aflwyddiannus – hynny yw, nid yw'r aelodaeth yn cael ei hadfer – bydd ei statws ar y gofrestr yn parhau i ddangos 'dilewyd'. Dim ond am un flwyddyn rydyn ni'n cyhoeddi'r penderfyniad ar y rhestr benderfyniadau chwiliadwy. Os gwneir cais wedi 10 mlynedd ar ôl dileu, a'r cais yn aflwyddiannus, gan na fydd cofnod ar y gofrestr, dim ond am flwyddyn y byddwn yn cyhoeddi'r penderfyniad ar y rhestr benderfyniadau chwiliadwy.

A.4 Rhannu gwybodaeth gyda chyrrff eraill

10. Datgelu i awdurdodau cymwys aelod-wladwriaethau Ewropeaidd a rheoleiddwyr eraill

Byddwn yn datgelu gwybodaeth am faterion addasrwydd i ymarfer i reoleiddwyr ac awdurdodau cyhoeddus y DU, awdurdodau cymwys aelod-wladwriaethau Ewrop a rheoleiddwyr eraill ledled y byd lle bydd er budd i'r cyhoedd ac yn gyfreithlon i wneud hynny.

Bydd angen i fferyllwyr sy'n gofrestrredig ym Mhrydain ac sy'n dymuno gwneud cais i gofrestru ar gyfer ymarfer mewn gwlad arall fel arfer ofyn i'r CFfC anfon tystysgrif statws proffesiynol a hanes addasrwydd i ymarfer (CCPS) i'r awdurdod cofrestru a/neu awdurdod rheoleiddio perthnasol. Os ydych wedi bod yn destun honiad addasrwydd i ymarfer yn y gorffennol, bydd crynodeb o'r achos a chanlyniad yr ymchwiliad neu'r gwrandawriad yn cael eu datgelu yn y CCPS. Bydd unrhyw wybodaeth addasrwydd i ymarfer y bwriadwn ei datgelu yn y CCPS yn cael ei hanfon atoch chi yn gyntaf ar gyfer eich caniatâd. Mae rhagor o wybodaeth ar gael **ar ein gwefan**.

¹¹ Byddai'r dileu wedi digwydd cyn ffurfio'r CFfC yn 2010.

11. Awdurdodau gwahardd

Rydym yn hysbysu'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) neu Disclosure Scotland (DS), ac unrhyw gyrff perthnasol eraill, am achosion perthnasol yn unol â'r fframwaith cyfreithiol sefydledig. Gallwch weld rhagor o wybodaeth am **yr hyn rydym yn ei gyfeirio a'i ddatgelu i'r GDG a DS** ar ein gwefan. Nid ydym yn datgelu gwybodaeth ynghylch a yw aelod ar unrhyw restr wahardd.

A.5 Eraill sydd ynghlwm wrth y broses

12. Y person sy'n mynegi pryder a thystion

Pan fo person yn mynegi pryder rydyn ni fel arfer yn rhoi manylion y pryder a'r person a'i mynegodd i'r canlynol (oni bai bod rhesymau dros beidio â'u datgelu):

- y person, pobl neu'r cwmni mae'r pryder amdano/amdanant
- eu cyflogwr
- eu cynrychiolwyr cyfreithiol
- asiantaethau neu gyrff cyhoeddus perthnasol eraill.

Ni fyddwn byth yn rhoi manylion cyswllt y person sy'n mynegi'r pryder i'r person, pobl neu gwmni mae'r pryder yn ei gylch/yn eu cylch.

Rydym yn golygu gwybodaeth am dystion agored i niwed a phlant dan oed oni bai bod rhesymau cryf iawn dros gynnwys neu ddatgelu. Fel arfer, ni fydd enwau tystion eraill, gan gynnwys tystion proffesiynol, yn cael eu golygu.

13. Gwybodaeth am Gleifion

Yn unol â chanllawiau cyfrinachedd y GIG, rydym yn dileu data lle gellir adnabod cleifion o'r wybodaeth a gyhoeddir neu a ddatgelir oni bai bod angen penodol dros ei gynnwys. Wrth rannu gwybodaeth, dim ond pan fo rheswm penodol neu angenrheidiol y byddwn yn datgelu data y gellir ei gysylltu â chlaf y gellir ei adnabod, yn unol â deddfwriaeth diogelu data. Mewn amgylchiadau eraill, bydd gwybodaeth cleifion yn:

- cael ei defnyddio'n ddienw, neu'n
- cael ei chyflwyno'n defnyddio ffugenwau (ni fydd modd, yn rhesymol, adnabod unigolion o'r wybodaeth heb allwedd, ond bydd yn caniatáu i wybodaeth am wahanol bobl gael ei gwahaniaethu – er enghraifft, i adnabod sawl tyst ar yr un pryd)

Os ystyriwn ei bod yn angenrheidiol rhannu data y gellir ei gysylltu â chlaf y gellir ei adnabod, byddwn yn cysylltu a'r sefydliad arall i drafod y sefyllfa cyn i'r data gael ei rannu. Byddwn fel arfer yn rhannu gwybodaeth lle gellir adnabod claf dim ond ar ôl i ni gael caniatâd y claf neu ei gynrychiolydd, pan fo hynny'n rhesymol bosibl. Mae hyn er mwyn sicrhau ein bod yn cadw at ddeddfwriaeth diogelu data a dyletswydd gyfrinachedd y gyfraith gyffredin.

Atodiad B: Canllawiau cyhoeddi a datgelu – fferyllfeydd cofrestredig

B.1 Cyflwyniad a diben

Mae'r atodiad hwn yn disgrifio ein hagwedd at gyhoeddi a datgelu gwybodaeth arolygu a gorfodi mewn perthynas â lleoliadau fferyllol cofrestredig.

Mae'r atodiad hwn yn trafod yr hyn a gyhoeddwn ar-lein ar ein cofrestr gyhoeddus ac ar ein gwefan, a'r hyn y gallem ei ddatgelu ar adegau eraill. Dylid ei ddarllen a'i ystyried ochr yn ochr â'r prif bolisi.

B.2 Sut rydyn ni'n cyhoeddi gwybodaeth arolygu

1. Ein proses arolygu

Rydym yn cynnal tri math o arolygiad – arolygiadau arferol, arolygiadau wedi eu harwain gan wybodaeth ac arolygiadau thematig.

Diben ein harolygiadau arferol ac wedi eu harwain gan wybodaeth yw asesu a yw fferyllfeydd cofrestredig yn cyrraedd ein **safonau rheoleiddio**. Pan fo fferyllfa wedi methu â chyrraedd un neu ragor o'n safonau, bydd cynllun gweithredu gwelliant yn cael ei gyflwyno i'r perchennog, y bydd angen iddo ei gwblhau o fewn cyfnod penodedig.

Bydd yn cael ei arolygu eto chwe mis wedi'r dyddiad yr anfonwyd yr adroddiad arolygu terfynol at y perchennog. Gyda'r arolygiad chwe mis, bydd yr arolygydd yn ymweld â'r fferyllfa eto i asesu a yw'r fferyllfa'n cyrraedd y safonau, ac i sicrhau bod y gwelliannau'n cael eu cynnal. Os ydynt, byddwn yn cyflwyno adroddiad wedi ei ddiweddarau gyda'r canlyniad cyffredinol yn dangos bod y fferyllfa wedi cyrraedd y safonau i gyd.

Bydd ein harolygiadau thematig yn golygu ymweld â detholiad o fferyllfeydd i ganolbwyntio ar themâu neu faterion penodol yn fanwl.

Gallwch weld **rhagor o wybodaeth am ein proses arolygu** ar ein gwefan.

2. Y cefndir cyfreithiol

Mae gennym bŵer i gyhoeddi adroddiadau a chanlyniadau ein harolygiadau.¹²

3. Ein gwefan a'r gofrestr ar-lein

Byddwn yn cyhoeddi adroddiadau ein harolygiadau arferol, ein harolygiadau wedi eu harwain gan wybodaeth a'n harolygiadau thematig. Byddwn hefyd yn cyhoeddi canlyniadau'r arolygiadau hyn, yn ogystal â chynlluniau gweithredu gwelliannau sydd wedi eu cyflwyno i fferyllfeydd, pan yn berthnasol.¹³¹⁴

Bydd y rhain yn cael eu cyhoeddi ar ein **gwefan cyhoeddi arolygiadau** a bydd adroddiadau ar fferyllfeydd unigol ar gael drwy gofnod y fferyllfa unigol ar **gofrestr ar-lein y CFFC**.

¹²Erthygl 9 Gorchymyn Fferylliaeth 2010, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Fferylliaeth (Safonau Adeiladau, Rhwymedigaethau Gwybodaeth ac ati) 2016

¹³ Nid ydym yn bwriadu enwi fferyllfeydd fel mater o drefn yn adroddiadau ein harolygiadau thematig.

¹⁴ Erthygl 9 Gorchymyn Fferylliaeth 2010, fel y'i diwygiwyd (gweler uchod)

Bydd gan bob fferyllfa ei thudalen ddynodedig ei hun ar y wefan cyhoeddi arolygiadau, lle gellir cael mynediad at adroddiad arolygu cryno, yn ogystal â dolen at yr adroddiad tystiolaeth manwl. Bydd dolen ar y dudalen hon hefyd at y cynllun gweithredu gwelliannau, pan yn berthnasol, ac adroddiadau blaenorol, yn unol â'r polisi hwn.

B.3 Sut rydym yn cyhoeddi gwybodaeth am orfodi

4. Ein pwerau gorfodi

Mae nifer o opsiynau gorfodi ar gael i ni i'n galluogi i sicrhau cydymffurfiaeth â'n safonau. Mae'r rhain yn amrywio o gynlluniau gweithredu gwelliannau i bwerau gorfodi statudol, yn cynnwys hysbysiadau gwella ac amodau ar leoliadau fferyllol cofrestredig.

Gall yr opsiynau gorfodi ddigwydd ar unrhyw gam o'r broses ac nid ydynt, o anghenraid, yn digwydd yn y drefn ganlynol. Mewn rhai achosion, efallai y penderfynwn ddefnyddio cyfuniad o opsiynau gorfodi.

Mae rhagor o wybodaeth am ein pwerau gorfodi, a'r opsiynau gorfodi sydd ar gael i ni, yn ein **polisi gorfodi**.

5. Y cefndir cyfreithiol

Nodir ein pwerau gorfodi yn Neddf Meddyginiaethau 1968 ac yng Ngorchymyn Fferylliaeth 2010, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn (Safonau Adeiladau, Rhwymedigaethau Gwybodaeth, ac ati) 2016

6. Ystod yr opsiynau gorfodi

i. Cynlluniau gweithredu gwelliannau

Fel arfer, rydym yn defnyddio cynlluniau gweithredu gwelliannau fel ein hymateb cyntaf i fethiant i gyrraedd ein safonau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig.

Os yw un neu ragor o'n safonau heb eu cyrraedd, ac mae risg yn syth i gleifion neu'r cyhoedd, bydd gofyn i berchnogion fferyllfeydd ddatblygu cynllun gweithredu gwelliannau, yn nodi'r hyn y byddant yn ei wneud, a phryd, er mwyn gwneud iawn am y sefyllfa a chyrraedd y safonau.

Rydym yn gwirio wedyn gyda'r fferyllfeydd hyn i sicrhau eu bod yn cyflwyno'r gwelliannau angenrheidiol a bod y safonau'n cael eu cyrraedd yn llawn.

Pan na fydd cynllun gweithredu'n cael ei gwblhau o fewn yr amser a nodwyd, neu os na fydd perchennog fferyllfa wedi gwneud unrhyw ymdrech i gydymffurfio â'r cynllun gweithredu ar ôl cael ei atgoffa sawl tro, rydym yn ystyried opsiynau gorfodi eraill, gan gynnwys defnyddio ein pwerau gorfodi statudol.

ii. Amodau ar aelodaeth gofrestrdig

Gellir rhoi amodau ar aelodaeth fferyllfeydd cofrestredig. Mae gennym bwerau cyfreithiol i osod amodau ar leoliadau fferyllol penodol pan fo hyn yn angenrheidiol i sicrhau ymarfer fferylliaeth yn ddiogel ac yn effeithiol yn y lleoliad hwnnw¹⁵. Gallwn osod amodau ar leoliad wrth ymuno â'r gofrestr neu wedi hynny (boed yn adnewyddiad ai peidio).

¹⁵ Adran 74D Deddf Meddyginiaethau 1968

Mae gosod, amrywio neu ddileu amodau ar aelodaeth yn broses orfodi hyblyg y gallwn ei defnyddio mewn nifer o wahanol ffyrdd i sicrhau bod perchnogion fferyllfeydd yn cyrraedd y safonau ac yn darparu gofal diogel ac effeithiol. Gellir defnyddio amodau i gyfyngu gweithgareddau neu arferion anniogel neu a allai arwain at risg.

Gall methu â chydymffurfio ag amodau'n ymwneud â'r safonau arwain at gyflwyno hysbysiad gwella.

iii. Hysbysiadau gwella

Mae gennym bwerau cyfreithiol i gyflwyno hysbysiad gwella pan fo gan ein harolygwyr sail resymol dros gredu bod methiant i gyrraedd y safonau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig, neu fethiant i gyflawni amcanion yn ymwneud â'r safonau¹⁶.

Byddwn yn ystyried defnyddio hysbysiad gwella os penderfynwn y byddai hynny'n debygol o arwain at y perchennog yn mynd i'r afael â'r materion sy'n peri pryder o fewn cyfnod derbyniol. Byddwn yn rhoi o leiaf 28 diwrnod i berchnogion fferyllfeydd wedi dyddiad cyflwyno'r hysbysiad gwella. Pan fyddwn yn cyflwyno hysbysiad gwella, bydd yr arolygydd yn cysylltu â pherchennog y fferyllfa i drafod sut y gall gydymffurfio.

Pan fyddwn yn hyderus bod y perchennog wedi gweithredu, bydd yr hysbysiad gwella'n cael ei dynnu yn ôl a bydd y perchennog yn cael gwybod am hyn yn ysgrifenedig.

Os bydd perchennog fferyllfa'n methu â chydymffurfio â'r hysbysiad gwella, rhaid cyfeirio'r mater at y pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer i'w ystyried fel achos dros wahardd¹⁷. Bydd canlyniad yr hysbysiad gwella yn cael ei arddangos fel 'Heb ei fodloni – atgyfeirio at Bwyllgor AiY i ystyried gwahardd'.

7. Opsiynau gorfodi eraill

Yn rhan o'n hopsiynau gorfodi, gallwn hefyd:

- **gwahardd perchennog fferyllfa am fethu â chyrraedd y safonau, a dileu pob cofnod lleoliad o'r gofrestr**¹⁸. Y prawf cyfreithiol ar gyfer y sancsiwn hwn, pan nad yw safonau fferyllol wedi eu cyrraedd, yw a ydy'r perchennog yn anaddas i gynnal busnes manwerthu fferyllol yn ddiogel ac yn effeithiol, o ran gwerthu cynnyrch meddyginiaethol (boed ar y rhestr werthu gyffredinol ai peidio) neu gyflenwi cynnyrch o'r fath mewn amgylchiadau sy'n cyfateb â manwerthu. Y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer sy'n gwneud y penderfyniadau hyn.
- **dileu un neu ragor o gofnodion lleoliadau o'r gofrestr** os yw'r Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer yn hyderus bod perchennog fferyllfa yn anaddas i gynnal busnes manwerthu fferyllol yn ddiogel ac yn effeithiol. Unwaith eto, y prawf cyfreithiol ar gyfer y sancsiwn hwn, pan na chyrraedd safonau fferyllol, yw a ydy'r perchennog yn anaddas i gynnal y busnes manwerthu fferyllol yn ddiogel ac yn effeithiol, fel y disgrifir uchod. Y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer sy'n gwneud y penderfyniadau hyn hefyd.

¹⁶ Erthygl 13 Gorchymyn Fferylliaeth 2010

¹⁷ Erthygl 14 Gorchymyn Fferylliaeth 2010

¹⁸ Adran 80 Deddf Meddyginiaethau 1968

- **gwahardd dros dro un neu ragor o'r cofnodion lleoliadau wrth ddisgwyl gwrandawriad llawn achos yn erbyn perchennog**¹⁹ neu cyn i benderfyniad gwahardd dros dro neu ddileu ddod i rym (dim ond ar ôl i'r cyfnod ar gyfer lansio apêl ddod i ben, neu tan i'r apêl gael ei chlywed os lansir apêl y daw'r penderfyniad i rym). Dim ond pan fo'r Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer yn hyderus eu bod yn angenrheidiol i ddiogelu'r cyhoedd neu er lles y cyhoedd mewn ffordd arall y mae'r pwerau hyn yn gallu cael eu gweithredu²⁰.²¹

8. Ein gwefan a'r gofrestr ar-lein

Dan Erthygl 19(7) y Gorchymyn Fferylliaeth, mae'n rhaid i ni gyhoeddi gwybodaeth o'n cofrestr. Rydym yn cyhoeddi'r wybodaeth hon ar ffurf cofrestr ar-lein, sy'n cynnwys manylion fferyllwyr, technegwyr fferyllol a lleoliadau fferyllol.

Yn ogystal â chyhoeddi'r gofrestr, rydym hefyd yn defnyddio ein gwefan i sicrhau tryloywder ynghylch unrhyw gamau gorfodi rydyn ni wedi eu gweithredu yn erbyn fferyllfeydd cofrestredig a pherchnogion fferyllfeydd. Bydd rhagor o wybodaeth ynghylch y fferyllfa benodol ar ein gwefan cyhoeddi arolygiadau.

B.4 Cyhoeddi a datgelu gwybodaeth arolygu a gorfodi

Rydym yn cyhoeddi ac yn datgelu gwybodaeth yn ymwneud â'n harolygiadau a'n gweithgareddau gorfodi mewn ffordd sy'n dryloyw, yn wrthrychol ac yn gymesur, ac yn taro cydbwysedd rhwng lles y cyhoedd a thegwch â phawb sydd ynghlwm wrth y broses. O ganlyniad, bydd y wybodaeth a gyhoeddwn yn parhau ar y wefan am y cyfnodau a nodir yn y tablau isod.

Ni fyddwn yn cyhoeddi nac yn datgelu, oni bai y byddai gwneud hynny yn briodol, unrhyw wybodaeth fasnachol sensitif³ nac unrhyw wybodaeth y gellir adnabod unigolion ohoni yn ymwneud â'r fferyllfeydd a arolygwn, heblaw am yr hyn sydd eisoes ar ein cofrestr gyhoeddus neu yn y parth cyhoeddus.

Ni fyddwn yn cyhoeddi nac yn datgelu, oni bai y byddai gwneud hynny'n briodol, unrhyw wybodaeth arolygu neu orfodi a allai rhagfarnu ymchwiliadau sy'n mynd rhagddynt gan y CFFC neu drydydd parti.

Os bydd camau gorfodi yn cael eu rhoi ar waith ar fferyllfa gofrestredig, bydd ei statws ar y gofrestr yn cael ei ddiwygio'n unol â hynny. Bydd y wybodaeth sy'n cyd-fynd â hynny'n parhau ar y gofrestr am gyfnod wedi i'r gweithredu ddod i ben.

Mae cyfnodau cyhoeddi gwybodaeth arolygu a gorfodi ar ein gwefan wedi eu nodi isod.

¹⁹ Erthygl 56(1)(A) Gorchymyn Fferylliaeth 2010

²⁰ Adran 82A Deddf Meddyginiaethau 1968

²¹ Gellir rhoi cyfarwyddiadau anghymhwysu a dileu am gyfnod cyfyngedig, sy'n golygu y bydd cofnodion lleoliadau yn cael eu hadfer ar ddiwedd y cyfnod hwnnw. Y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer sy'n gwneud y penderfyniadau hyn hefyd.

Tabl 2. Llinellau amser cyhoeddi – arolygiadau

Math o gyhoeddiad arolygu	Ble caiff y wybodaeth ei chyhoeddi	Sut caiff y wybodaeth ei chyflwyno	Cyfnod cyhoeddi'r wybodaeth
Adroddiadau arolygiadau arferol	<ul style="list-style-type: none"> Gwefan cyhoeddi arolygiadau Dolen o gofrestr ar-lein y CFC 	<ul style="list-style-type: none"> Ar dudalen ddynodedig ar gyfer pob fferyllfa Adroddiad cryno ar gael ar gyfer arolygiad diweddaraf fferyllfa, a dolen at adroddiad tystiolaeth ac unrhyw gynllun gweithredu gwelliant cysylltiedig Dolenni at adroddiad(au)/cynlluniau gwella blaenorol mewn adran hanesyddol ar dudalen ddynodedig fferyllfa am y cyfnod a nodir 	5 mlynedd
Arolygiadau wedi eu harwain gan wybodaeth	<ul style="list-style-type: none"> Gwefan cyhoeddi arolygiadau Dolen o gofrestr ar-lein y CFC 	<ul style="list-style-type: none"> Ar dudalen ddynodedig ar gyfer pob fferyllfa Ar gael drwy ddolen ar dudalen ddynodedig fferyllfa 	5 mlynedd

Tabl 3. Llinellau amser cyhoeddi – gorfodi

Canlyniad gorfodi	Ble caiff y wybodaeth ei chyhoeddi	Sut bydd 'statws' yn ymddangos ar y gofrestr ar-lein am gyfnod cyfan y camau gorfodi	Sut caiff y wybodaeth ei chyflwyno	Cyfnod cyhoeddi'r wybodaeth
Cynlluniau gweithredu gwelliannau	<ul style="list-style-type: none"> Gwefan cyhoeddi arolygiadau Dolen o gofrestr ar-lein y CFFC 	'Cofrestrwyd'	<ul style="list-style-type: none"> Ar dudalen ddynodedig ar gyfer pob fferyllfa Ar gael ochr yn ochr ag adroddiad cysylltiedig pan yn berthnasol Ar gael ochr yn ochr ag adroddiad cysylltiedig blaenorol mewn adran hanesyddol pan yn berthnasol 	5 mlynedd
Amodau	<ul style="list-style-type: none"> Cofrestr ar-lein y CFFC Gwefan cyhoeddi arolygiadau 	'Cofrestrwyd'	<ul style="list-style-type: none"> Gyda manylion wedi eu cyhoeddi Ar dudalen ddynodedig y fferyllfa 	5 blynedd ²²
Hysbysiadau gwella	<ul style="list-style-type: none"> Cofrestr ar-lein y CFFC Gwefan cyhoeddi arolygiadau 	'Cofrestrwyd'	<ul style="list-style-type: none"> Gyda manylion wedi eu cyhoeddi Ar dudalen ddynodedig y fferyllfa 	5 mlynedd
Gwaharddiad dros dro	<ul style="list-style-type: none"> Cofrestr ar-lein y CFFC Gwefan cyhoeddi arolygiadau 	'Gwaharddwyd dros dro'	<ul style="list-style-type: none"> Gyda manylion wedi eu cyhoeddi Ar dudalen ddynodedig y fferyllfa 	5 mlynedd
Dileu un neu ragor o	Prif wefan y CFFC	'Lleoliad wedi ei ddileu'	<ul style="list-style-type: none"> Ar dudalen ddynodedig yn dangos lleoliadau fferyllol sydd wedi eu 	5 mlynedd wedi i'r penderfyniad

²² Oni bai bod amodau yn dal ar waith ar ôl y cyfnod hwn. Sylwer nad yw amodau bob amser yn gyfyngedig o ran eu hyd.

Canlyniad gorfodi	Ble caiff y wybodaeth ei chyhoeddi	Sut bydd 'statws' yn ymddangos ar y gofrestr ar-lein am gyfnod cyfan y camau gorfodi	Sut caiff y wybodaeth ei chyflwyno	Cyfnod cyhoeddi'r wybodaeth
leoliadau gan y PAY			<p>dileu o gofrestr ar-lein y CFfC a pherchnogion fferyllfeydd sydd wedi eu gwahardd yn barhaol</p> <ul style="list-style-type: none"> Cyhoeddir y penderfyniad neu grynodedeb, gan gynnwys manylion unrhyw fesurau dros dro 	gael ei roi ar waith
Gwahardd perchennog fferyllfa'n barhaol a'r PAY yn dileu pob lleoliad	Prif wefan y CFfC	'Perchennog wedi ei anghymwys' 'Lleoliad wedi ei ddileu'	<ul style="list-style-type: none"> Ar dudalen ddynodedig yn dangos lleoliadau fferyllol sydd wedi eu dileu o gofrestr ar-lein y CFfC a pherchnogion fferyllfeydd sydd wedi eu gwahardd yn barhaol Cyhoeddir y penderfyniad neu grynodedeb, gan gynnwys manylion unrhyw fesurau dros dro 	5 mlynedd wedi i'r penderfyniad gael ei roi ar waith

1. Apeliadau ac adolygiadau barnwrol

Os bydd apêl neu adolygiad barnwrol ynghylch unrhyw gamau gorfodi, bydd yr hysbysiad gwella neu'r hysbysiad o amodau yn aros ar y wefan cyhoeddi arolygiadau. Byddwn yn diweddarau adran canlyniadau'r hysbysiad â gwybodaeth yn datgan bod apêl wedi'i gwneud neu fod cais i wneud adolygiad barnwrol wedi'i ganiatáu. Bydd cofnod y fferyllfa ar y gofrestr yn parhau i ddangos 'yn destun hysbysiadau neu amodau'.

Pan wneir apêl yn erbyn hysbysiad gwella, caiff y Llys atal yr hysbysiad hyd nes y penderfynir ar yr apêl neu y rhoddir y gorau iddi. Yn achos adolygiad barnwrol, gall y Llys roi gwaharddeb yn erbyn yr amodau. Byddwn yn diweddarau'r adran canlyniadau yn yr hysbysiad cyhoeddedig os bydd y naill neu'r llall o'r

rhain yn digwydd. Yn y sefyllfa hon, byddwn yn dileu'r sylw 'yn destun hysbysiadau neu amodau' yn y gofrestr, gan nad yw'r hysbysiad yn fyw mwyach.

Pan fydd canlyniad yr apêl yn hysbys, byddwn yn gwneud newidiadau priodol i'r wefan cyhoeddi arolygiadau a'r gofrestr. Er enghraifft, gallai'r Llys ganslo hysbysiad gwella neu ei gadarnhau, gyda newid neu heb newid. Byddwn yn dileu'r hysbysiad os caiff ei ganslo, ac yn ei ddiweddarau, gydag unrhyw newidiadau angenrheidiol, os caiff ei gadarnhau.

2. Gwybodaeth am berchnogion

Ni fyddwn yn cyhoeddi nac yn datgelu, oni bai ei bod yn briodol gwneud hynny, unrhyw benderfyniadau gan y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer ynghylch perchennog, lle cynhaliwyd y gwrandawriad yn breifat, i ystyried materion iechyd er enghraifft. Yn yr achosion hyn, byddwn yn cyhoeddi fersiwn wedi ei golygu o'r penderfyniad, neu grynodedb.

Pan fydd y pwyllgor yn canfod nad yw'r perchennog yn anaddas i barhau â'r busnes manwerthu fferyllol yn ddiogel ac yn effeithiol, dim ond mewn achosion lle mae'r perchennog yn gofyn iddo gael ei ddatgelu neu pan fydd yn cydsynio iddo gael ei ddatgelu y bydd y CFC yn cyhoeddi neu'n datgelu'r penderfyniad. Os bydd y perchennog yn gofyn am gyhoeddi'r canlyniad, neu os bydd y CFC wedi derbyn caniatâd, bydd y penderfyniad yn cael ei gyhoeddi ar wefan y CFC am 12 wythnos. Bydd pob cais am wybodaeth yn ymwneud ag achosion lle penderfynwyd 'dim nam ar addasrwydd' mewn perthynas â'r perchennog yn cael ei ystyried dan weithdrefnau RhG sefydledig. Mae'r dull gweithredu hwn yn deg i'r aelod cofrestredig ac yn cadw at ein darpariaethau deddfwriaethol²³.

B.5 Rhannu gwybodaeth gyda chyffwrdd eraill

Rydym yn cydweithio gyda rheoleiddwyr gofal iechyd eraill a rhanddeiliaid perthnasol eraill i rannu gwybodaeth ac enghreifftiau o arfer dda.

Rydym wedi creu Memoranda Cyd-ddealltwriaeth (MC) gyda nifer o sefydliadau, yn nodi sut y byddwn yn rhannu gwybodaeth a'r hyn a wnawn i osgoi dyblygu gwaith. Mae'r sefydliadau hyn yn cynnwys yr Arolygiaeth Gofal, y Comisiwn Ansawdd Gofal, Arolygiaeth Gofal iechyd Cymru, yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a chynnyrch Gofal Iechyd, GIG Lloegr a'r Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol, ymhlith eraill. Gallwch weld **rhestr lawn o'r sefydliadau hyn ar ein gwefan**.

Mewn rhai achosion, byddai'n briodol neu'n angenrheidiol cynnal arolygiadau ar y cyd gyda sefydliadau partner eraill, ac mewn achosion o'r fath byddem yn rhannu gwybodaeth sy'n berthnasol i'r achosion penodol hynny.

Byddwn yn cynnwys manylion am fferyllfeydd sydd â chymau gorfodi ar waith yn rhan o ddatganiad rheolaidd i'r wasg, y cyfryngau, rheoleiddwyr a sefydliadau eraill.

²³ Erthygl 54(5)(c) Gorchymyn Fferylliaeth 2010

Atodiad C: Canllawiau cyhoeddi a datgelu – addysg

C.1 Cyflwyniad a diben

Mae'r atodiad hwn yn nodi ein dull cyhoeddi a datgelu gwybodaeth yn ymwneud ag addysg.

Mae'n trafod yr hyn a gyhoeddwn ar-lein ar ein cofrestr gyhoeddus ac ar ein gwefan, a'r hyn y gallem ei ddatgelu ar adegau eraill. Dylid ei ddarllen a'i ystyried ochr yn ochr â'r prif bolisi.

C.2 Sut rydyn ni'n cyhoeddi gwybodaeth am addysg

1. Ein rôl mewn hyfforddiant ac addysg

Mae ein cyfrifoldebau o ran hyfforddiant ac addysg gweithwyr fferyllol proffesiynol a'r tîm fferyllol ehangach yn cynnwys:

- gosod safonau hyfforddiant ac addysg cychwynnol **fferyllwyr, technegwyr fferyllol a phresgripisynwyr fferyllol annibynnol**
- gosod **gofynion hyfforddi** staff cymorth fferyllol.
- **cymeradwyo (achredu a chydabod) cyrsiau fferylliaeth** sy'n arwain at gofrestru ac anodi
- nodi'r canlyniadau y disgwyliwn i fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol dan hyfforddiant eu cyflawni, yn rhan o'r **meini prawf cyffredinol ar gyfer cofrestru fel fferylllyddac fel technegydd fferyllol**
- **achredu lleoliadau hyfforddi cyn gofrestru** ac **asesu addasrwydd tiwtoriaid fferyllwyr cyn gofrestru**
- gosod yr **asesiad cofrestru** cenedlaethol i brofi gwybodaeth a sgiliau fferyllwyr cyn gofrestru dan hyfforddiant. Mae llwyddo yn yr asesiad cofrestru yn un o'r meini prawf cymhwysedd i wneud cais i fod yn fferylllydd cofrestredig.

2. Y cefndir cyfreithiol

Mae'n ofynnol ar y CFfC dan y ddeddfwriaeth i osod safonau ar gyfer addysg, hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus sy'n angenrheidiol os yw fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol am gael eu derbyn ar Gofrestr y CFfC, ac aros arni, neu am dderbyn anodiad²⁴.

3. Ein gwefan a'r gofrestr ar-lein

Dan Erthygl 42(7) Gorchymyn Fferylliaeth 2010, mae'n rhaid i ni gyhoeddi a chynnal rhestr o'r cyrsiau hyfforddiant ac addysg, cymwysterau, sefydliadau a darparwyr eraill.

Rydym yn cyhoeddi'r wybodaeth hon **ar ein gwefan**, gyda'n gofynion hyfforddiant ac addysg ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol a'r tîm fferyllol, yn ogystal â manylion am ein proses gymeradwyo ar gyfer darparwyr hyfforddiant ac addysg. Rydym hefyd yn cyhoeddi gwybodaeth am ganlyniadau ein hasesiadau cofrestru ²⁵ar ffurf datganiad i'r wasg ar ein gwefan, ynghyd â phapur adborth gyda'n dadansoddiad cyffredinol ar berfformiad myfyrwyr.

²⁴ Erthygl 4(3)(c) Gorchymyn Fferylliaeth 2010

²⁵ Mae dwy sesiwn asesu cofrestru bob blwyddyn – un ym mis Mehefin ac un ym mis Medi.

C.3 Cyhoeddi a datgelu gwybodaeth yn ymwneud ag addysg

Rydym yn cyhoeddi ac yn datgelu gwybodaeth yn ymwneud â'n swyddogaethau'n ymwneud ag addysg mewn ffordd sy'n dryloyw, yn wrthrychol ac yn gymesur, ac yn taro cydbwysedd rhwng lles y cyhoedd a thegwch â phawb sydd ynghlwm wrth y broses. O ganlyniad, bydd y wybodaeth a gyhoeddwn yn parhau ar y wefan am y cyfnodau a nodir yn y tablau isod.

Ni fyddwn yn cyhoeddi nac yn datgelu, oni bai bod hynny'n briodol, unrhyw wybodaeth yn ymwneud â'r gweithgareddau achredu y gellir adnabod pobol ohoni, heblaw am enwau'r unigolion sydd ynghlwm wrth ymweliadau achredu/ailachredu, yn rhan o'n hadroddiadau sicrhau ansawdd achredu/ailachredu.

Ni fyddwn yn cyhoeddi nac yn datgelu, oni bai y byddai hynny'n briodol, unrhyw wybodaeth y gellir adnabod pobl ohoni, heblaw am y wybodaeth sydd eisoes ar gael ar ein cofrestr gyhoeddus.

Mae cyfnodau cyhoeddi gwybodaeth yn ymwneud ag addysg ar ein gwefan wedi eu nodi isod.

Tabl 4. Llinellau amser cyhoeddi – Addysg

Math o Gyhoeddiad	Ble caiff y wybodaeth ei chyhoeddi	Sut caiff y wybodaeth ei chyflwyno	Cyfnod cyhoeddi'r wybodaeth
Darparwyr hyfforddiant ac addysg cymeradwy	Cyhoeddir ar wefan y CFfC	<ul style="list-style-type: none"> Rhestr gyfredol o ddarparwyr hyfforddiant ac addysg cymwys fesul rhaglen, yn dangos eu henwau wedi eu hyperddolennu, yn arwain at wybodaeth ychwanegol am eu cyfnod achredu cyfredol, adroddiadau achredu a gohebiaeth swyddogol, yn ogystal â dolen at eu gwefan yn ôl enw yn unig mewn dogfennau PDF y gellir eu lawrlwytho 	<p>Am y cyfnod cyfan y bydd y darparwyr hyfforddiant ac addysg yn parhau i fod yn achrededig</p> <p>Wedi hynny, dim ond yn ôl enw yn y rhestr o ddarparwyr rhaglenni achrededig blaenorol</p>
Safleoedd hyfforddiant fferyllol cyn-gofrestru cymeradwy	Cyhoeddir ar wefan y CFfC	<ul style="list-style-type: none"> Fel cronfa ddata chwiliadwy i wirio a yw lleoliad yn derbyn hyfforddeion cyn-gofrestru Mae'r wybodaeth sydd ar gael yn cynnwys: enw a chyfeiriad y lleoliad hyfforddi, perchennog y fferyllfa, unrhyw hysbysiadau neu amodau a allai fod ar waith ar gyfer y 	Am y cyfnod y bydd y lleoliad yn parhau i weithredu fel safle hyfforddi cyn-gofrestru cymeradwy

Math o Gyhoeddiad	Ble caiff y wybodaeth ei chyhoeddi	Sut caiff y wybodaeth ei chyflwyno	Cyfnod cyhoeddi'r wybodaeth
		fferyllfa, a'r dyddiad y daw ei chymeradwyaeth i ben	
Adroddiadau achredu/ailachredu	Cyhoeddir ar wefan y CFfC	<ul style="list-style-type: none"> Cyflwynir adroddiadau ar yr ymweliad achredu/ailachredu/dros dro/monitro diweddaraf ²⁶ar ffurf ffeiliau PDF ar gyfer pob un o'r sefydliadau sy'n darparu unrhyw un neu rai o'r gwahanol fathau o gyrsiau achrededig²⁷ Mae'r adroddiadau'n cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> Dyddiad ac amser yr ymweliad Enwau aelodau'r tîm achredu oedd yn bresennol Enwau cynrychiolwyr y CFfC Enw cyswllt ar gyfer y cwrs Enwau arsylwyr Enwau raporteuriaid Gwybodaeth am gysylltiadau sydd eisoes rhwng staff academaidd 	Tan ymweliad nesaf o'r math hwnnw

²⁶ Yn unol â'r Gorchymyn Fferylliaeth, cyhoeddir adroddiadau pob ymweliad diweddar, waeth beth fo'r canlyniad. Ar gyfer darparwyr addysg sy'n methu â bodloni meini prawf penodol, mae'r adroddiadau'n cynnwys esboniad pam.

²⁷ Ar hyn o bryd mae'r rhain yn cynnwys: Graddau MFfer, cyrsiau Rhaglen Asesu Fferyllwyr Tramor (OSPAP), graddau Sylfaen Fferylliaeth, rhaglenni presgripsiynu annibynnol, cyrsiau technegwyr fferyllol, cyrsiau cynorthwywyr fferyllol/fferylliaeth, cyrsiau cynorthwywyr cownteri Meddyginiaethau.

Math o Gyhoeddiad	Ble caiff y wybodaeth ei chyhoeddi	Sut caiff y wybodaeth ei chyflwyno	Cyfnod cyhoeddi'r wybodaeth
		<p>mewn prifysgolion, pan yn berthnasol</p> <ul style="list-style-type: none"> – Canlyniadau'r CFFC a chyngor i'r darparwr addysg • Mae gwefan y CFFC yn rhestru enwau paneli achredu a Rapporteuriaid a nodyn bywgraffyddol byr ar bob aelod 	
Adroddiadau asesu cofrestru	Cyhoeddir ar wefan y CFFC	<ul style="list-style-type: none"> • Fel arfer yn rhan o bapurau Cyngor y CFFC • Mae'r adroddiad yn nodi enwau'r ysgolion fferylliaeth unigol a'u cyfraddau pasio. Maent yn cynnwys dadansoddiad o'u perfformiad cyffredinol, a pherfformiad cyfanredol ymgeiswyr, yn ôl oed, rhyw, ethnigrwydd, gwlad a sector lleoliad. • Ni chyhoeddir gwybodaeth y gellir nabod personau ohoni yn yr adroddiadau 	Am y cyfnod y bydd papurau'r Cyngor yn parhau'n gyhoeddedig

C.4 Rhannu gwybodaeth gyda chyrrff eraill

Rydym yn gweithio gyda rhanddeiliaid gwahanol ledled Prydain Fawr a'r tu hwnt i rannu gwybodaeth a mewnwleidiad, gyda'r nod o wella hyfforddiant ac addysg gweithwyr fferyllol proffesiynol a'r tîm fferyllol ehangach, a diogelu cleifion a defnyddwyr gwasanaethau fferyllol.

Mae gennym Femoranda Cyd-ddealltwriaeth (MC) gyda nifer o sefydliadau, yn nodi sut y byddwn yn rhannu gwybodaeth a'r hyn a wnawn i osgoi dyblygu gwaith. Mae'r rhestr yn cynnwys sefydliadau sydd â chyfrifoldeb dros addysg gofal iechyd. Gallwch weld **rhestr lawn o'r sefydliadau hyn ar ein gwefan.**

Rydym yn defnyddio data personol i ddadansoddi ac adolygu gwahanol agweddau ar ein gwaith fel rheoleiddiwr er budd y cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys defnyddio data a gasglwn ynghylch gweithwyr fferyllol proffesiynol cofrestredig, perchnogion fferyllfeydd, ceisiadau i gofrestru, hyfforddiant ac addysg

cyn-gofrestru, addasrwydd i ymarfer ac aiddilysu. Rydym yn cyhoeddi **ymchwil ar ein gwefan**, ond nid ydym yn enwi unigolion mewn adroddiadau, oni bai eu bod wedi rhoi caniatâd penodol.

O dro i dro, rydym yn comisiynu trydydd partïon i wneud gwaith ymchwil ar feysydd penodol o'n gwaith. Mewn achosion o'r fath, byddem yn rhannu gwybodaeth berthnasol gyda'r tîm i'w galluogi i gynnal eu harolygon neu at ddibenion dadansoddi. Rydym yn defnyddio data yn ddiennw pan nad oes angen rhannu gwybodaeth y gellir adnabod personau ohoni. Rydym yn sicrhau bod unrhyw drydydd partïon o'r fath yn llofnodi cytundeb sy'n cynnwys cymalau cyfrinachedd a diogelu data.

Atodiad D: Canllawiau cyhoeddi a datgelu – y Gofrestr

1. Y cefndir cyfreithiol

Dan Erthygl 19 y Gorchymyn Fferylliaeth, rhaid i ni sefydlu a chynnal cofrestr fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol, ac ar gyfer dibenion adran 74A Deddf Meddyginiaethau 1968 (cofrestru lleoliadau: Prydain Fawr), rhaid i ni hefyd gynnal cofrestr o leoliadau fferyllol ym Mhrydain.

Yn ogystal, mae Erthygl 34 y Gorchymyn Fferylliaeth yn nodi y gall y CFFC rhoi gweithwyr fferyllol proffesiynol yn Rhannau 1 a 2 y Gofrestr yn achos argyfyngau'n ymwneud â cholli bywyd dynol neu salwch dynol ac ati, os ystyriwn eu bod yn bersonau addas, priodol ac â phrofiad priodol i'w cofnodi felly mewn perthynas â'r argyfwng hwnnw.

Yn unol ag adrannau 74J a 74K y Ddeddf Meddyginiaethau, sydd hefyd yn cyfeirio at argyfyngau'n ymwneud â cholli bywyd dynol neu salwch dynol ac ati, gallwn roi a/neu anodi safleoedd yn Rhan 3 y gofrestr, mewn perthynas â'r argyfwng hwnnw.

Mae'r Gorchymyn, dan Erthygl 19(2), yn dweud bod yn rhaid rhannu cofrestr y CFFC yn 5 rhan:

- Rhan 1, yn ymwneud â fferyllwyr heblaw am ymarferwyr ar ymweliad
- Rhan 2, yn ymwneud â thechnegwyr fferyllol heblaw am dechnegwyr fferyllol ar ymweliad
- Rhan 3, yn ymwneud â lleoliadau fferyllol
- Rhan 4, yn ymwneud â fferyllwyr sydd yn ymarferwyr ar ymweliad
- Rhan 5, yn ymwneud â thechnegwyr fferyllol sydd yn dechnegwyr fferyllol ar ymweliad

Mae Erthygl 19(6) yn rhoi hyblygrwydd i ni benderfynu ar y wybodaeth i'w chynnwys yn y rhestri o fferyllwyr, technegwyr fferyllol a lleoliadau fferyllol.

Dan Erthygl 19(7) y Gorchymyn Fferylliaeth, mae'n rhaid i ni gyhoeddi'r wybodaeth o'n cofrestr, yn y gwahanol restrri.

2. Fferyllwyr

O ran fferyllwyr (Rhan 1 y Gofrestr), rydym yn cyhoeddi'r wybodaeth ganlyinol ar ein gwefan:

- eu cyfenw
- eu henwau blaen
- eu tref bost
- unrhyw anodiadau a allai fod ganddynt^{2, 28}
- a ydynt yn oruchwylydd²⁹

²⁸ Cyhoeddir anodiadau cyhyd ag y bo'r anodiadau ar waith. Gall aelod cofrestredig ddileu anodiadau'n wirfoddol, o ganlyniad i waharddiad gweinyddol, o ganlyniad i brosesau ailddilysu, neu drwy benderfyniad addasrwydd i ymarfer.

²⁹ Mae Uwch-arolygydd fferyllol yn cymryd cyfrifoldeb dros y ffordd y mae cwmni'n cyflawni ei weithgareddau fferyllol proffesiynol.

- eu rhif cofrestru gyda'r CFFC³⁰
- eu statws cofrestru ³¹
- dyddiad y daw eu haelodaeth i ben ³²
- unrhyw wybodaeth Addaswydd i ymarfer berthnasol ³³

3. Technegwyr fferyllol

O ran technegwyr fferyllol (Rhan 2 y Gofrestr), rydym yn cyhoeddi'r wybodaeth ganlynol ar ein gwefan:

- eu cyfenw
- eu henwau blaen
- eu tref bost
- eu rhif cofrestru gyda'r CFFC ³⁰
- eu statws cofrestredig ³¹
- dyddiad y daw eu haelodaeth i ben ³²
- unrhyw wybodaeth Addaswydd i ymarfer berthnasol ³³

4. Gweld cofrestr dros dro argyfwng COVID-19

Rydym wedi cyhoeddi cofrestr dros dro o bobl addas, briodol a phrofiadol a all weithredu fel fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol yn ystod argyfwng COVID-19. Fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol a oedd wedi tynnu eu hunain o gofrestr y CFFC gynt neu a gafodd eu dileu am beidio ag adnewyddu yn ystod y tair blynedd diwethaf, ac nad oedd ganddynt unrhyw faterion Addaswydd i Ymarfer yw'r unigolion ar y rhestr hon.

Mae'r gofrestr dros dro yn rhoi enw, rhif cofrestru, gwlad ac unrhyw anodiadau a allai fod ganddynt.

Gweld cofrestr dros dro frys COVID-19

5. Cofrestr dros dro ar gyfer fferyllwyr

Rydym wedi cyflwyno cofrestriad dros dro mewn ymateb i bandemig COVID-19, sydd wedi effeithio ar allu hyfforddeion ar y cynllun cyn gofrestru fferyllwyr yn 2020 i orffen eu hyfforddiant yn ôl y bwriad, ac i sefyll yr asesiad cofrestru fel y trefnwyd yn wreiddiol.

Rydym wedi cyhoeddi **cofrestr o fferyllwyr sydd wedi'u cofrestru dros dro**, sy'n rhoi enw, rhif cofrestru dros dro a thref bost. Mae'r unigolion ar y gofrestr hon wedi'u cofnodi dros dro yn Rhan 1 y gofrestr fel

³⁰ Mae'r rhif hwn yn nodi'n unigryw bob fferylllydd/technegydd fferyllol cofrestredig

³¹ I gael rhagor o wybodaeth am statws cofrestredig unigolion, gweler Atodiad A y polisi hwn, sy'n nodi'r wybodaeth a gyhoeddir gennym ynglŷn ag addaswydd gweithwyr fferyllol i ymarfer.

³² Mae'n ofynnol i fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol adnewyddu eu cofrestriad yn flynyddol, ddeufis cyn dyddiad dod i ben eu cofrestriad. Gallant ymarfer tan ddyddiad dod i ben eu cofrestriad, oni bai eu bod yn destun penderfyniad Addaswydd i Ymarfer.

³³ Os oes gan fferylllydd/technegydd fferyllol wybodaeth addaswydd i ymarfer bydd y maes hwn yn cael ei farcio gydag 'oes' a bydd dolen yn cael ei darparu at wybodaeth am eu hanes addaswydd i ymarfer.

fferyllwyr am gyfnod cyfyngedig, yn ddarostyngedig i gyfyngiadau penodol fel y nodir yn **Safonau addysg a hyfforddiant cychwynnol fferyllwyr: meini prawf ar gyfer cofrestru dros dro.**

6. Fferyllfeydd

O ran lleoliadau fferyllol cofrestredig (Rhan 3 y Gofrestr), rydym yn cyhoeddi'r wybodaeth ganlynol ar ein gwefan:

- eu henw masnachu
- enw'r Perchennog
- cyfeiriad presennol y fferyllfa
- eu rhif cofrestru gyda'r CFfC³⁴
- statws cofrestredig y fferyllfa³⁵
- a ydynt yn arddangos Logo Fferyllfa Ryngrwyd y CFfC ³⁶
- a oes adroddiad arolygu cyhoeddiedig ar gyfer y fferyllfa ³⁷
- a oes hysbysiadau neu amodau ar waith iddynt³⁸
- hanes camau gorfodi'r fferyllfa³⁹

7. Darpariaeth gwasanaethau dros dro ac achlysurol

Ar ôl 31 Rhagfyr 2020, ni ellir gwneud ceisiadau newydd gan fferyllwyr neu dechnegwyr fferyllol sydd â chymwysterau Ewropeaidd i ddarparu gwasanaethau dros dro ac achlysurol (DDacA) yn y DU. Fodd bynnag, gall y rhai a oedd wedi gwneud cais cyn y dyddiad hwnnw barhau i ddarparu gwasanaethau DDacA tan i'w hawl i wneud hynny ddod i ben. Gan nad oedd y gweithwyr fferyllol proffesiynol hyn wedi gwneud cais llawn i gofrestru fel sy'n ofynnol gan Reolau Cofrestru'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol, fe'u cofnodwyd naill ai yn Rhan 4 neu 5 cofrestr y CFfC.

Er mwyn bod yn gymwys i gael cofnod yn Rhan 4 neu 5 y gofrestr, rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol sydd â chymwysterau Ewropeaidd fod:

³⁴ Mae'r rhif hwn yn nodi'n unigryw bob fferyllfa gofrestredig.

³⁵ I gael rhagor o wybodaeth am statws cofrestredig fferyllfeydd cofrestredig, cyfeiriwch at Atodiad B y polisi hwn, sy'n nodi'r wybodaeth a gyhoeddir gennym mewn perthynas â fferyllfeydd cofrestredig ac unrhyw gamau gorfodi a allai fod ar waith arnynt.

³⁶ Os yw'r lleoliad fferyllol wedi gwneud cais i ddefnyddio logo fferyllfa ryngrwyd y CFfC a hyn wedi ei gymeradwyo, dylid arddangos y logo ar eu gwefan.

³⁷ Dim ond ar gyfer arolygiadau sydd wedi'u cynnal ers mis Ebrill 2019 y cyhoeddir adroddiadau arolygu. Mae 'Oes' yn y golofn hon yn dangos bod adroddiad arolygu cyhoeddiedig ar gyfer y fferyllfa hon, ac ar gael ar wefan cyhoeddi arolygiadau'r fferyllfa.

³⁸ Mae 'Oes' yn y golofn hon yn dangos bod y fferyllfa yn destun camau gorfodi statudol ar hyn o bryd. Gweler Atodiad B i gael rhagor o wybodaeth.

³⁹ Gellir gweld manylion unrhyw gamau gorfodi hanesyddol ar dudalen y fferyllfa ar y wefan cyhoeddi arolygiadau.

- yn wladolyn mewn aelod-wladwriaeth o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) neu'r Swistir, neu feddu ar hawliau'r Gymuned Ewropeaidd
- fod wedi eu sefydlu ac wedi derbyn caniatâd i ymarfer fel fferylllydd neu dechnegydd fferyllol heb gyfyngiad mewn gwlad AEE arall neu'r Swistir
- fwriadu bod yn bresennol yn y DU i ddarparu gwasanaethau fferyllol ar sail dros dro ac achlysurol.

Rydym yn cyhoeddi dogfennau PDF gydag enwau gweithwyr fferyllol proffesiynol sydd yn Rhan 4 a 5 y gofrestr a'r dyddiad y daw eu hawl i ddarparu gwasanaethau DDacA i ben dan y **Wybodaeth ar gyfer cyflogwyr ar ein gwefan**.

8. Chwilio am gofnod ar Gofrestr y CFfC

Mae swyddogaeth chwilio ein gwefan yn galluogi defnyddwyr i chwilio fferyllfeydd cofrestredig a thechnegwyr fferyllol yn ôl y canlynol:

- eu rhif cofrestru
- eu henw blaen
- eu cyfenw.

Mae hefyd yn cynnwys swyddogaeth sy'n ei gwneud yn bosibl chwilio am gyfenwau tebyg, os nad yw sillafiad enw olaf yr aelod yn wybyddus.

Yn achos fferyllfeydd cofrestredig, gellir eu chwilio yn ôl:

- eu rhif cofrestru gyda'r CFfC
- eu henw masnachu
- eu tref/cod post.

Atodiad E: Canllawiau cyhoeddi a datgelu – ymgynghoriadau

Yn unol ag Erthygl 5 Gorchymyn Fferylliaeth 2010, rhaid i ni ymgynghori cyn gosod unrhyw safonau neu ofynion.

Rydym yn cyhoeddi **dogfennau ymgynghori ar ein gwefan** ar ffurf dogfennau PDF ac yn cynnwys dadansoddiad o'r adborth a dderbyniwn ar ein cynigion ymgynghori, neu yn sgil ymglymu gyda rhanddeiliaid a grwpiau perthnasol. Mae dogfennau ymgynghori hefyd yn cael eu cynnwys ym mhapurau Cyngor y CFFC.

Mae'r adroddiadau yn cyflwyno crynodeb o adborth a dderbynnir gan unigolion a sefydliadau sydd wedi cymryd rhan yn yr ymgynghoriad. Gallai'r rhain gynnwys ffigurau, tablau a graffiau i gyflwyno'r canlyniadau. Mae'r wybodaeth yn cael ei chyflwyno fesul cwestiwn, pwnc neu gategori. Mae'r wybodaeth yn cael ei chyflwyno'n gronnol ac ni chyhoeddir gwybodaeth y gellir adnabod personau ohoni yn yr adroddiadau. Rydym yn cyhoeddi enwau'r sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad neu fu'n rhan ohono. Mae'r rhain yn cael eu cyflwyno fel rhestr mewn atodiad ac ni ellir eu cysylltu â chyfraniadau penodol.

Mae dogfennau ymgynghori ar gael yn gyhoeddedig ar wefan y CFFC am bum mlynedd.

